Rhif: **WG18516**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Bil Addysg Uwch (Cymru)

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion ar gyfer addysg uwch ym Mhapur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), ac ymgynghoriad technegol pellach

Dyddiad cyhoeddi: **20 Mai 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **29 Gorffennaf 2013**

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

**Trosolwg**

Roedd Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio fframwaith rheoleiddio presennol addysg uwch. Daeth 55 o ymatebion ysgrifenedig i law yn sgil yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a diwygiwyd cynigion Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r adborth. Mae adroddiad cryno o'r ymgynghoriad i'w weld yn www.wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?status=closed&lang=cy

Mae dau bwrpas i'r ddogfen hon:

- cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion ar gyfer addysg uwch yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn
- ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ar fanylion technegol cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymgynghoriad technegol hwn yn holi barn am sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu o fewn y fframwaith arfaethedig. Bydd yr ymatebion yn sail i waith mireinio ar y cynigion presennol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'n ymwneud â'r materion a ganlyn:

- cyflwyno dull diwygiedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr
- trefniadau ar gyfer ei gwneud yn orfodol i roi cap ar ffioedd dysgu a chynlluniau ffioedd
- asesiad o ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch
- sicrwydd ariannol a llywodraethu.

**Sut i ymateb**

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost/y post i'r cyfeiriad isod erbyn **29 Gorffennaf 2013** fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir cael y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon, dylech gysylltu â:

Brendan Murtagh
Y Tîm Deddfwriaeth
Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: highereducationwalesbill@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6585

© Hawlfraint y Goron 2013
WG18516

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**

**2. Rhan A: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)** **2**
- Deilliannau'r ymarfer ymgynghori ar y Papur Gwyn 2
- Cefnogi partneriaeth a gweithgarwch cydweithredol 2
- Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a'i gwella 4
- Cryfhau llais y dysgwr 6
- Cynigion i'w gweithredu drwy ddeddfwriaeth 8

**Rhan B: Ymgynghoriad technegol**

**3. Yr angen am newid** **12**

**4. System reoleiddio ddiwygiedig** **15**
- Dynodi cyrsiau at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr 15
- Dynodi cyrsiau fesul achos 17
- Statws elusennol 18
- Amcan cyffredinol o'r system reoleiddio ddiwygiedig 19
- Gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd – rôl ddiwygiedig ar gyfer CCAUC 21
- Breinio a dilysu cyrsiau addysg uwch 22
- Beth yw'r goblygiadau i sefydliadau a darparwyr eraill cyrsiau addysg uwch? 24
- Cwestiynau ymgynghori: system reoleiddio ddiwygiedig 27

**5. Rheolaethau ar ffioedd a mynediad teg** **28**
- Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid 28
- Gorfodi terfynau ffioedd 28
- Trefniadau mynediad teg – cynlluniau ffioedd 29
- Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd 30
- Gorfodi terfynau ffioedd 31
- Monitro a gorfodi cynlluniau ffioedd 35
- Cyfarwyddyd gwario 37
- Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd 37
- Tynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd sy'n weithredol 38
- Gweithredu sancsiynau 38
- Cwestiynau ymgynghori: rheolaethau ar ffioedd a mynediad teg 41

**6. Asesu ansawdd** **42**
- Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid 42
- Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd 43
- Cwmpas y ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei hasesu 43
- Cydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC 44
- Ansawdd anfoddhaol – ymyrryd a sancsiynau 45
- Cyrsiau breiniol 47
- Cwestiynau ymgynghori: asesu ansawdd 48

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **Sicrwydd ariannol a llywodraethu** | **49** |
| | Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid | 49 |
| | Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd | 50 |
| | Cod llywodraethu ariannol a chorfforaethol | 50 |
| | Ymyrryd | 52 |
| | Cwestiynau ymgynghori: sicrwydd ariannol a llywodraethu | 54 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Roedd Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio fframwaith rheoleiddio presennol addysg uwch. Daeth 55 o ymatebion ysgrifenedig i law yn sgil yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a diwygiwyd cynigion Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r adborth. Mae adroddiad cryno o'r ymgynghoriad i'w weld yn: http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?skip=1&lang=cy

1.2 Mae dau bwrpas i'r ddogfen hon:

- cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn **(Rhan A)**;
- ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ar fanylion technegol cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru **(Rhan B)**.

1.3 Mae Rhan A yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac yn amlinellu'r cynigion a gaiff eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth.

1.4 Mae'r ymgynghoriad technegol yn Rhan B yn adeiladu ar gynigion y Papur Gwyn ac yn amlinellu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys newidiadau i swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr.

1.5 Mae'r ddogfen hon yn holi eich barn am sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu o fewn y fframwaith arfaethedig. Bydd yr ymatebion yn sail i waith mireinio ar y cynigion presennol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad technegol yn cwmpasu:

- cyflwyno dull diwygiedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr;
- trefniadau ar gyfer ei gwneud yn orfodol rhoi cap ar ffioedd dysgu a chynlluniau ffioedd;
- asesiad o ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch;
- sicrwydd ariannol a llywodraethu.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **29 Gorffennaf** 2013.

# 2. Rhan A: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)

## Deilliannau'r ymarfer ymgynghori ar y Papur Gwyn

2.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac yn amlinellu'r cynigion a gaiff eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth a'r rhai na chânt eu gweithredu. Mae crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2.2 Roedd y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar y newidiadau deddfwriaethol y mae angen eu gwneud i sicrhau bod gan CCAUC[1] y pwerau a'r dyletswyddau priodol o dan y trefniadau cyllido newydd ar gyfer addysg uwch. Yn ogystal, roedd y Papur Gwyn yn cynnig cryfhau dyletswyddau statudol CCAUC mewn perthynas ag asesu ansawdd addysg uwch yn ogystal â gweithredu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i gryfhau llais y dysgwr a gwella profiad y myfyriwr. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch cynigion i Weinidogion Cymru gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn amgylchiadau strategol-briodol.

2.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynwyd **na** chaiff y cynigion canlynol eu gweithredu yn y Bil arfaethedig:

- ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru gyllido darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol mewn achosion lle mae'n strategol-briodol gwneud hynny;
- rhoi dyletswydd ar CCAUC i ofalu bod darpariaeth yn cael ei gwneud i wella ansawdd addysg uwch;
- ehangu'r trefniadau presennol ar gyfer datrys anghydfodau a chryfhau'r gofynion mewn perthynas â chyllido undebau myfyrwyr a datblygu Siarteri Myfyrwyr.

Mae'r rhesymeg dros y penderfyniadau hyn wedi'i hamlinellu isod.

## Cefnogi partneriaeth a gweithgarwch cydweithredol

2.4 Roedd yr ymgynghoriad yn holi'r rhanddeiliaid ar ddau gwestiwn:

- A yw rhanddeiliaid yn cytuno y byddai darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn amgylchiadau strategol-briodol yn fuddiol i weithgareddau partneriaeth a chydweithredol?
- A fyddai yna anfanteision o roi darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn amgylchiadau strategol-briodol?

[1] Cyfeirir at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel CCAUC a'r 'Cyngor' yn y ddogfen hon.

Roedd rhaniad cymharol gyfartal rhwng y rheini oedd o blaid rhoi darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn amgylchiadau strategol-briodol, a'r rheini oedd yn gwrthwynebu darpariaeth o'r fath.

2.5 Roedd yr adborth a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- dylai Llywodraeth Cymru allu ymateb i sefyllfaoedd arbennig a chyllido addysg uwch mewn meysydd strategol-bwysig mewn ymateb i anghenion a nodir;
- mae buddsoddi mewn meysydd strategol yn bwysig a gallai hybu newidiadau mawr pellach;
- gallai'r cynnig fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau gan helpu i feithrin cydweithrediad rhwng sefydliadau addysg uwch a charfanau eraill cyn belled na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyllid addysg uwch;
- gallai'r cynnig helpu i ehangu mynediad a diogelu buddiannau dysgwyr ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys yr hawl i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

2.6 Serch hynny, nododd mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r ail gwestiwn anfanteision posibl, gan gynnwys rhai a oedd o blaid darpariaeth ar gyfer cyllido uniongyrchol. Dim ond un ymateb nododd yn benodol nad oedd unrhyw anfanteision. Nodwyd sawl rheswm dros wrthwynebu'r ddarpariaeth arfaethedig a phob math o anfanteision, er enghraifft:

- gallai'r ddarpariaeth dorri'r egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu, sef y dylai sefydliadau weithredu hyd braich oddi wrth y Llywodraeth a/neu gallai ymyrryd ag annibyniaeth sefydliadau a rhyddid academaidd;
- gellid ystyried y ddarpariaeth yn ymyrraeth uniongyrchol ar ran y Llywodraeth a gallai wthio yn ei blaen y broses o ailddosbarthu sefydliadau addysg uwch yn gyrff cyhoeddus at ddibenion cyfrifo neu gyfaddawdu statws elusennol prifysgolion;
- ni fyddai'r ddarpariaeth, o reidrwydd, yn sicrhau'r math o fanteision ariannol, y darbodion maint, y manteision ac ati a nodir yn y Papur Gwyn fel deilliannau i'w dymuno;
- gallai'r math o weithgareddau roedd y Llywodraeth am eu cefnogi gael eu cyllido o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol;
- roedd profiad ac arbenigedd CCAUC mewn addysg uwch a chyllid yn cael ei werthfawrogi ac roedd yn rhywbeth y byddai angen amser ar Lywodraeth Cymru i'w ddatblygu;
- roedd diffyg eglurder ynghylch pryd byddai'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio - sut byddai 'strategol-briodol' yn cael ei ddiffinio, o ble y byddai'r arian yn dod a sut y câi ei ddyrannu ac ati.

2.7 Nid oedd yr ymatebion hynny oedd yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth o reidrwydd yn erbyn gweld Gweinidogion yn rhoi cyllid tuag at flaenoriaethau strategol y Llywodraeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n nodi mai llythyr cylch

gwaith blynyddol Gweinidogion Cymru i CCAUC a derbyn strategaeth gorfforaethol CCAUC oedd y dull mwyaf priodol o gyflawni hyn yn dal i fod. Roedd ymatebion eraill yn cynnig awgrymiadau eraill, yn eu plith:

- rhoi pwerau deddfwriaethol ychwanegol i CCAUC gyllido gweithgareddau a mentrau partneriaeth ehangach;
- gwella prosesau cyfredol CCAUC o ran cyllido partneriaethau a chonsortia;
- ymchwilio'n llawn i botensial mecanweithiau cyfredol fel Cronfeydd Ad-drefnu a Chydweithredu a Datblygu Strategol CCAUC gan ddefnyddio meini prawf sy'n gysylltiedig â rhai o flaenoriaethau penodol y Llywodraeth;
- ymchwilio i opsiynau eraill megis sut gall asiantaethau sy’n bodoli eisoes gydweithredu ar faterion strategol o'r fath;
- rhoi dyletswydd statudol ar CCAUC i sicrhau bod addysg uwch yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n gyson ar draws rhanbarthau.

2.8 Er bod cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid i'r ddarpariaeth arfaethedig, ar y cyfan ystyriwyd bod lefel a natur yr anfanteision a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn bwysicach.

## Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a'i gwella

2.9 Roedd yr ymgynghoriad yn holi'r rhanddeiliaid ar dri chwestiwn:

- A ydych yn cytuno y dylai'r ddyletswydd statudol arfaethedig i sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu a gwella ansawdd gael ei hehangu i gynnwys y canlynol: pob sefydliad addysg uwch; darparwyr â phwerau dyfarnu graddau; unrhyw ddarparwyr eraill sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru (ond nad ydynt yn sefydliadau addysg uwch neu nad oes ganddynt bwerau dyfarnu graddau)?
- Mewn perthynas â CCAUC yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar sicrhau ansawdd a'i wella, pa ganllawiau a fyddai’n cael eu hystyried yn fuddiol i sicrhau ansawdd a'i wella?
- Pa newidiadau eraill y gellid eu rhoi ar waith i wneud y system sicrhau ansawdd yng Nghymru yn fwy cadarn?

2.10 Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn cyntaf o blaid y cynnig. Ymhlith y rhesymau a ddarparwyd oedd y byddai'n sicrhau:

- cysondeb trefniadau sicrhau ansawdd rhwng darparwyr Cymru;
- lefel ansawdd ofynnol ar gyfer pob myfyriwr, yn hollbwysig o ran llais a phrofiad y dysgwr;
- triniaeth deg gyda phob math o ddarparwr;
- enw da addysg uwch yn fwy cyffredinol yng Nghymru.

Un rheswm a roddwyd yn erbyn y cynnig oedd y dylai asesiadau o ansawdd a'i wella fod yn gymesur â'r graddau y mae darparwyr unigol yn cymryd rhan mewn trefniadau cymorth i fyfyrwyr/elwa ar y trefniadau hynny. Rheswm arall oedd y gallai trefniadau rheoleiddio newydd gymhlethu'r trefniadau rheoleiddio presennol o ran sicrwydd ansawdd ar gyfer sefydliadau addysg bellach.

2.11 Mae'n bosibl y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddeall dwy ddyletswydd statudol gyfredol CCAUC[2] ac, er eu bod yn gefnogol iddi, amcan y ddyletswydd newydd arfaethedig. Roedd sawl un yn pryderu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar y cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol rhwng CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu'n pwysleisio mai'r Asiantaeth ddylai barhau i fod yn gyfrifol am asesu ansawdd.

2.12 Mewn perthynas â'r ail gwestiwn, cynigiodd yr ymatebion awgrymiadau adeiladol ar gyfer y canllawiau. Roedd yr adborth yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ganllawiau yn osgoi dyblygu gweithgareddau monitro ac adrodd yn ddiangen ac yn adeiladu ar y trefniadau presennol. Nid oedd rhai o'r ymatebion yn ystyried ei bod yn briodol i'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau; un rheswm oedd y byddai'n well gadael hyn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a CCAUC.

2.13 Mewn ymateb i'r trydydd cwestiwn, roedd rhai sylwadau yn nodi bod y broses bresennol a oruchwylir gan yr Asiantaeth eisoes yn ddigon trylwyr. Nodwyd y gallai rheolaethau ychwanegol gynyddu biwrocratiaeth heb i hynny fod o fudd i ddysgwyr ac y dylid adolygu'r trefniadau cyfredol cyn cyflwyno newidiadau. Fodd bynnag, roedd sylwadau eraill yn cynnig awgrymiadau buddiol ar gyfer gwneud y system gyfredol yn fwy trylwyr.

2.14 Derbyniwyd adborth ar bwnc gwella ansawdd yn yr ymatebion i bob un o'r tri chwestiwn. Nid oedd unrhyw sylwadau yn mynegi'r angen am ddyletswydd statudol mewn perthynas â gwella ansawdd. Ni chafwyd sylwadau chwaith yn gwrthwynebu dyletswydd o'r fath. Roedd cefnogaeth i'r syniad mai'r Asiantaeth, drwy gytundeb lefel gwasanaeth, oedd yn y sefyllfa orau i roi'r wybodaeth ofynnol i CCAUC fel y gall asesu ansawdd y ddarpariaeth a sicrhau ei bod yn gwella. Roedd yn glir bod yr Asiantaeth yn cael ei hystyried yn nod barcud ansawdd sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn frand cryf yn y DU. Mae statws yr Asiantaeth o fudd i Gymru. Roedd sawl ymateb yn pwysleisio'r ymrwymiad cryf i wella ansawdd sydd eisoes yn cael ei weithredu yng Nghymru, gyda gweithgareddau ar y gweill a threfniadau sydd wedi'u hen sefydlu. Ymhlith elfennau eraill, roedd y rhain yn cynnwys pennod newydd ar ymgysylltu â myfyrwyr yng Nghod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a gwaith parhaus yr Academi Addysg Uwch.

2.15 Er bod yr ymatebion yn amlwg yn cefnogi'r bwriad polisi i ganolbwyntio ar wella ansawdd, nodwyd ambell rybudd:

[2] Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn rhoi dyletswydd statudol ar CCAUC i wneud trefniadau i asesu ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei chyllido neu y mae'n bwriadu ei chyllido, a sefydlu pwyllgor asesu ansawdd y mae mwyafrif ei aelodau o'r tu allan i'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae CCAUC yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

- bod addysg uwch ledled y DU yn profi cyfnod anwadal mewn amgylchedd economaidd anodd ac y dylai Llywodraeth Cymru osgoi bod yn rhy benodol wrth lunio dyletswydd ansawdd a gwella newydd ar gyfer CCAUC;
- bod angen sicrhau bod y ddyletswydd newydd arfaethedig ar gyfer CCAUC yn cyflawni'r amcan a fwriedir a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu dyletswydd gyfatebol ar gyfer pob darparwr i gydymffurfio â gofynion CCAUC, gan gynnwys costau gofynion asesu a gwella ansawdd perthnasol.

2.16 Rhan o'r rhesymeg sylfaenol dros wneud gwella ansawdd yn statudol oedd dangos bod ansawdd addysg uwch yn flaenoriaeth hirdymor i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r gweithgarwch i wella ansawdd sydd eisoes ar y gweill, ystyriwyd p'un a oes angen darpariaeth statudol ar hyn o bryd. Nid yw'r adborth i'r ymgynghoriad yn dynodi bod angen dyletswydd statudol i sicrhau bod ansawdd addysg uwch yn gwella, nac yn cynnig tystiolaeth bod y gweithgareddau presennol i wella ansawdd yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'n beth doeth rhoi amser i'r gweithgareddau presennol ymsefydlu a gwerthuso eu heffeithiolrwydd cyn gwneud mwy o newidiadau.

## Cryfhau llais y dysgwr

2.17 Roedd yr ymgynghoriad yn holi'r rhanddeiliaid ar dri chwestiwn:

- Pa effaith y mae canllawiau CCAUC wedi'i chael hyd yma o ran sicrhau bod undebau myfyrwyr yn cael digon o arian i gyflawni set gyffredin o swyddogaethau? Beth arall ddylid ei wneud er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn foddhaol?
- A yw'r set gyffredin o swyddogaethau i undebau myfyrwyr a gynhwysir yng nghanllawiau CCAUC yn briodol?
- A yw canllawiau CCAUC wedi bod yn ddigon effeithiol o ran sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn datblygu siarteri myfyrwyr mewn ymgynghoriad ag undebau myfyrwyr? Os nad ydynt, beth arall ddylid ei wneud er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn foddhaol?

2.18 Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r cwestiwn cyntaf yn nodi bod y canllawiau a gyhoeddwyd gan CCAUC wedi bod yn ddefnyddiol. Nododd rhai eu bod yn ffurfioli arferion presennol a nododd eraill nad oedd modd asesu'n llawn effaith y canllawiau mor fuan â hyn. Roedd un ymateb, er yn cefnogi'r canllawiau, yn mynegi pryder ynghylch eu rhoi ar waith, ac roedd yn awgrymu nad oedd y gwelliannau yr oedd sefydliadau yn eu gwneud yn arwain at newid sylfaenol ac ystyrlon. Awgrymodd sawl ymateb y dylid adolygu ac adnewyddu'r canllawiau bob hyn a hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu arferion gorau ac yn parhau'n berthnasol ac yn briodol.

2.19 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ail gwestiwn yn cytuno bod canllawiau CCAUC ar y set gyffredin o swyddogaethau ar gyfer undebau myfyrwyr yn briodol ond awgrymwyd y dylid eu hadolygu'n rheolaidd. Nododd un ymateb y byddai'n ddefnyddiol ailedrych ar y swyddogaethau er mwyn ystyried sut gellid

eu datblygu yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu partneriaeth fwy blaengar. Nododd ymateb arall y gallai'r galwadau cynyddol ar yr adnoddau sydd ar gael olygu bod angen adolygu'r swyddogaethau a'u blaenoriaethu. Nododd yr ymatebion rai awgrymiadau ar gyfer gwaith (anneddfwriaethol) pellach y gellid ei wneud a thynnwyd sylw at arferion da a gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y sector. Dim ond dau ymateb oedd yn anghytuno bod y canllawiau yn briodol ar sail y ffaith na ddylai undebau myfyrwyr fod yn atebol i'r sefydliad ond i'w haelodau.

2.20 Roedd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r trydydd cwestiwn yn nodi bod canllawiau CCAUC wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod sefydliadau yn datblygu siarteri mewn ymgynghoriad ag undebau myfyrwyr a bod y ddeialog gyda'r undeb yn ddeallus ac yn adeiladol. Nododd un ymateb nad oedd angen newid unrhyw beth o bwys gan fod y systemau ar gyfer gwaith partneriaeth wedi hen ennill eu plwyf; fodd bynnag, cydnabuwyd ei bod yn werth cyfundrefnu'r bartneriaeth honno mewn siarter. Nododd un arall fod y canllawiau yn ddigon soffistigedig i roi ystyriaeth i strwythur penodol sefydliad. Roedd sawl ymateb yn gefnogol i adolygu siarteri myfyrwyr yn rheolaidd. Fodd bynnag, ym marn rhai, er na ddylai CCAUC roi cyfarwyddyd penodol i sefydliadau addysg uwch ac undebau myfyrwyr ar sut i adolygu eu siarteri, byddai canllawiau ar gynnal adolygiad effeithiol a chadarn o gymorth i sicrhau bod y siarter yn addas i'r diben. Cynigiwyd sawl awgrym mewn perthynas â datblygu siarteri myfyrwyr, er enghraifft y dylid defnyddio'r Grŵp Ymgysylltu â Myfyrwyr yn y dyfodol i ystyried pa gymorth neu ganllawiau pellach y gellid eu rhoi i brifysgolion ac undebau myfyrwyr.

2.21 Ar y cyfan, daethpwyd i'r casgliad na chafwyd digon o amser i fesur effaith canllawiau CCAUC ar gyllid undebau myfyrwyr a datblygiad siarteri myfyrwyr. Heb dystiolaeth glir o'r angen, byddai'n amhriodol cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyllid undebau myfyrwyr a datblygu siarteri myfyrwyr mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd. Bydd datblygiadau yn y meysydd hyn yn parhau i fod yn fater i gydweithredu â'r sector addysg uwch a myfyrwyr yn ei gylch. Gofynnwyd i CCAUC fonitro effaith y dogfennau canllaw ar gyllid undebau myfyrwyr a siarteri myfyrwyr, a llunio adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y materion hyn erbyn Tachwedd 2013.

2.22 Nododd y Papur Gwyn y bydd yn gynyddol bwysig bod proses gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) (neu ddarpariaeth arall yn yr Alban a Gogledd Iwerddon) ar gael i bob myfyriwr sy'n cofrestru ar gyrsiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae hawl myfyriwr i gymryd rhan mewn gweithdrefnau datrys anghydfod yn amrywio yn ôl lle mae'n astudio. Mae pob prifysgol yng Nghymru ac yn Lloegr (boed wedi'i hariannu'n gyhoeddus neu'n breifat) a sefydliadau addysg uwch eraill a ariennir yn gyhoeddus yn sefydliadau sy'n gymwys at ddibenion cynllun cwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ac maent yn gorfod cydymffurfio â gofynion y cynllun. Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol hefyd wedi gwneud trefniadau i rai sefydliadau nad ydynt yn gymwys ymuno â'r cynllun yn wirfoddol. Os nad yw darparwr addysg uwch yn sefydliad sy'n gymwys at ddibenion y cynllun neu'n

aelod gwirfoddol o'r cynllun, ni fydd myfyrwyr y sefydliad hwnnw yn gallu cyfeirio eu cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Holwyd rhanddeiliaid am eu barn ar y cwestiwn canlynol:

- A ydych yn cytuno y dylai pob sefydliad a darparwr addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gydymffurfio â threfniadau datrys anghydfodau myfyrwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (ar lefel y sefydliad)?

2.23 Roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd yn gytûn y dylai fod yn orfodol i bob darparwr sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr gydymffurfio â threfniadau datrys anghydfodau myfyrwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar lefel sefydliad. Ystyriwyd y byddai gofyniad o'r fath yn helpu i warchod buddiannau'r dysgwr ac yn sicrhau chwarae teg i bob darparwr addysg uwch. Roedd adborth arall yn nodi y dylid annog sefydliadau i greu proses gwyno ac apelio ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais, gan nad yw'r rhain ar hyn o bryd yn rhan o gylch gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ac y dylai fod gan bob sefydliad addysg uwch weithdrefnau cwyno mewnol, sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion myfyrwyr, cyn iddynt ymuno â chynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Tynnwyd sylw mewn un ymateb at waith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar y gweill rhwng y ddau sefydliad. Nodwyd y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn arwain at rannu gwybodaeth berthnasol ac, mewn rhai achosion, y gellid cyfeirio'r sawl sy'n gwneud cais i broses gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol at gynllun yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ar gyfer achosion sy'n destun pryder (ac fel arall). Nodwyd hefyd bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn datblygu adran o'r Cod Ansawdd sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau gyda'r bwriad o bennu set o ddisgwyliadau ar gyfer darparwyr addysg uwch.

2.24 Mae angen ystyried yn ofalus yr elfennau ymarferol sydd ynghlwm wrth wneud darpariaeth i ddarparwyr preifat a sefydliadau addysg bellach gydymffurfio â phroses gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Er enghraifft, mae mwyafrif helaeth y darparwyr preifat sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru wedi'u lleoli yn Lloegr ac yn darparu eu cyrsiau yn Lloegr. Gan fod y cynllun yn gweithredu ar lefel Cymru a Lloegr, caiff unrhyw welliannau posibl eu trafod gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

## Cynigion i'w gweithredu drwy ddeddfwriaeth

2.25 Mae'r cynigion sy'n ymwneud â diwygio trefniadau ar gyfer rheoleiddio'r ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei chynnig yng Nghymru i gael eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth. Cafodd mwyafrif y cynigion sydd i'w gweithredu eu hamlinellu yn adran 4.1 y Papur Gwyn (Y trefniadau newydd ar gyfer cyllid a chymorth i fyfyrwyr). Maent wedi'u datblygu ymhellach yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad a chânt eu hintegreiddio â'r trefniadau

diwygiedig ar gyfer asesu ansawdd a sicrhau mynediad teg i addysg uwch (adrannau 4.3 a 4.4 y Papur Gwyn yn y drefn honno).

2.26 Roedd y Papur Gwyn yn holi barn rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio addysg uwch:

- A ydych yn cytuno y dylid parhau i wneud darpariaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru i roi cymorth i fyfyrwyr sy'n ceisio cael eu derbyn ar gyrsiau addysg uwch dynodedig a gyflenwir gan ddarparwyr preifat?
- Beth yw manteision ac anfanteision parhau i gynnig cefnogaeth o'r fath?
- A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr gydymffurfio â'r trefniadau:
    - ar lefel y sefydliad (mewn perthynas â sicrwydd ariannol ac ansawdd a datrys anghydfodau drwy Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol);
    - mewn perthynas â chyrsiau unigol (trefniadau mynediad teg, rheoleiddio ffioedd, darparu gwybodaeth a rheolaethau ar niferoedd myfyrwyr)?
- A ydych yn cytuno y dylai pob sefydliad a darparwr addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gydymffurfio â threfniadau mynediad teg mewn perthynas â'r cyrsiau hynny?
- Sut gellir gwella'r trefniadau mynediad teg? A ydych yn cytuno bod angen newid drwy gryfhau pwerau CCAUC?

2.27 Ar y cyfan, roedd ymatebion y rhanddeiliaid yn nodi y dylai parhau i gynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n ymuno â chyrsiau dynodedig sydd dan ofal darparwyr preifat, gyda'r trefniadau rheoleiddio a gynigir, helpu i sicrhau tegwch i'r holl ddarparwyr a bod y myfyrwyr yn cael y dewis ehangaf posibl. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynnig i barhau â'r math hwn o gymorth olygu bod mwy o alw ar gyllideb cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru a mynegwyd pryderon y gallai sefydliadau sy'n bodoli i wneud elw fod ar eu hennill yn sgil benthyciadau myfyrwyr a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'n gryf y cynigion rheoleiddio diwygiedig ar gyfer holl ddarparwyr addysg uwch Cymru sy'n darparu cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr.

2.28 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion ond yn nodi nifer o anfanteision a chafeatau*.* Nododd sawl un y byddai parhau i ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n ymuno â chyrsiau dynodedig sydd dan ofal darparwyr preifat, gyda'r trefniadau rheoleiddio newydd a gynigir, yn helpu i sicrhau tegwch i bob darparwr. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno â'r farn hon, gan fod ffynonellau cyllid eraill ar gael i ddarparwyr preifat ac nad yw eu ffïoedd nhw yn cael eu rheoleiddio. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai parhau â'r dull gweithredu presennol yn decach, gan ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr gael eu derbyn ar gyrsiau dynodedig a gyflenwir gan

sefydliadau cyhoeddus a phreifat, ac yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i ddysgwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru gael mynediad i amrywiaeth eang o gyrsiau a darparwyr addysg uwch. Roedd yr ymatebion yn nodi mai un o brif anfanteision y cynnig oedd y posibilrwydd y byddai mwy o bwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Codwyd nifer o bryderon mewn perthynas â darparwyr preifat.

2.29 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr gydymffurfio â'r trefniadau mewn perthynas â chyrsiau unigol ar gyfer mynediad teg, rheoleiddio ffïoedd, darparu gwybodaeth a rheoli niferoedd myfyrwyr. Dadleuwyd y byddai cysondeb yn y trefniadau hyn yn fuddiol i fyfyrwyr a sefydliadau, ac yn diogelu a gwella enw da ac ansawdd addysg uwch Cymru. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr y dylai'r trefniadau hyn fod yn rhesymol ac yn gymesur.

2.30 Roedd pob ymatebwr yn cytuno mewn egwyddor y dylai fod yn ofynnol i bob sefydliad a darparwr addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gydymffurfio â threfniadau mynediad teg mewn perthynas â'r cyrsiau hynny. Roedd y sail resymegol ar gyfer yr ymateb hwn yn canolbwyntio ar dri maes cyffredinol: diogelu buddiannau'r dysgwr, diogelu’r pwrs cyhoeddus a sicrhau chwarae teg i bob darparwr addysg uwch. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd na ddylai'r gofynion diwygiedig osod sefydliadau Cymru o dan anfantais wrth gystadlu ag eraill yn y sector yn y DU. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch ble yn union y byddai'r cynigion hyn yn berthnasol.

2.31 Yn gysylltiedig â'r trefniadau diwygiedig arfaethedig i reoli ffïoedd dysgu, cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn ynghylch a ddylid cryfhau pwerau CCAUC mewn perthynas â mynediad teg. Nid oedd mwyafrif y sefydliadau addysg uwch a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn argyhoeddedig bod angen rhoi pwerau cryfach i CCAUC yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai fod angen pwerau ychwanegol i sicrhau bod pob darparwr yn cydymffurfio â phrosesau mynediad teg, a dadleuodd eraill fod angen cryfhau'r prosesau'n ymwneud â chynlluniau ffïoedd er mwyn gwella trefniadau mynediad teg. Y bwriad yw cryfhau pwerau CCAUC mewn perthynas â threfniadau mynediad teg yng nghyd-destun y fframwaith rheoleiddio diwygiedig.

2.32 Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer system reoleiddio ddiwygiedig, bu'n rhaid addasu hyd a lled cynigion y Papur Gwyn er mwyn iddynt fodloni'r amodau canlynol:

- o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cymru;
- yn darparu ar gyfer rheolaethau mewn perthynas ag addysg uwch a gefnogir gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru;
- yn gymesur o ran eu gweithredu;
- yn ymarferol o ran eu cyflawni.

Y fframwaith rheoleiddio diwygiedig yw testun yr ymgynghoriad technegol (rhan B y ddogfen hon) ac mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r rheolaethau arfaethedig a sut y gweithredir y fframwaith yn y dyfodol. Rydym am i randdeiliaid roi eu barn ynghylch mater ei weithredu.

## Rhan B: Ymgynghoriad technegol

# 3. Yr angen am newid

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu pam mae angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol i reoleiddio addysg uwch yng Nghymru ac mae'n amlinellu cyd-destun y newidiadau a gyflwynir yn adran 4 y papur hwn.

3.2 Ymatebodd Llywodraeth Cymru i benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol ffïoedd dysgu addysg uwch yn Lloegr drwy gyflwyno cyllid newydd ar gyfer addysg uwch a threfniadau cymorth statudol i fyfyrwyr sy'n benodol i anghenion Cymru. Cyflwynwyd y trefniadau newydd o flwyddyn academaidd 2012/13 ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau gradd addysg uwch amser llawn o 1 Medi 2012 ac mae iddynt oblygiadau o ran y ffordd y mae CCAUC yn cyflawni ei swyddogaethau.

3.3 Mae'n ddyletswydd statudol ar CCAUC, o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau, neu'n ystyried gwneud hynny. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) ar gyfer Addysg Uwch ac mae'n gorfodi gofynion penodol ynghylch ansawdd addysg uwch drwy bennu amodau mewn perthynas â'r cyllid y mae'n ei ddyrannu i sefydliadau. Caiff gofynion CCAUC o ran cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau hefyd eu gweithredu drwy bennu amodau mewn perthynas â'r cyllid a gynigir i sefydliadau. Caiff yr amodau hyn eu cynnwys yn y memoranda ariannol rhwng y Cyngor a sefydliadau unigol.

3.4 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer ffïoedd dysgu addysg uwch yn seiliedig ar Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n gwneud darpariaeth i sefydliadau yng Nghymru sy'n codi ffïoedd uwchlaw'r swm sylfaenol (£4,000 ar hyn o bryd) sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch.[3] Mae'r trefniadau hyn wedi cael eu gweithredu o dan y drefn ffïoedd newydd ar ffurf cynlluniau ffïoedd ac, ym mis Mawrth 2011, cafodd CCAUC ei ddynodi'n gorff â chyfrifoldeb statudol yng Nghymru dros gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffïoedd. Yn unol â'r trefniadau newydd ar gyfer rheoleiddio ffïoedd dysgu o 1 Medi 2012, bydd yn ofynnol bod gan bob sefydliad sy'n derbyn cyllid gan CCAUC, sydd am godi ffïoedd sy'n uwch na £4,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn, gynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo. Rhaid i gynlluniau ffïoedd sefydliadau gynnwys mesurau, megis gweithgarwch codi pontydd a chymorth ariannol, sydd i'w cyflawni gan y sefydliadau er mwyn hyrwyddo addysg uwch a chyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch. Mae gallu CCAUC i orfodi rheolaethau ar ffïoedd ac ymrwymiad i gynlluniau ffïoedd

---

[3] Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer mynediad teg, sef: Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 (OS 2011/884 (Cy.128) a Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011 (OS 2011/658) (Cy.96).

hefyd yn seiliedig ar amodau mewn perthynas â chyllid y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu i sefydliadau.

3.5 O dan y trefniadau cyllid newydd a gyflwynir o flwyddyn academaidd 2012/13, bydd cyfran helaeth o gyllid grant rheolaidd addysg uwch (yr arferid ei ddyrannu i sefydliadau gan CCAUC o dan adran 65 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) yn dechrau cael ei dalu gan CCAUC drwy grantiau ffïoedd dysgu myfyrwyr. Nid yw grantiau o'r fath ar gyfer myfyrwyr cymwys yn rhan o'r drefn y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i roi cyllid i CCAUC i gyllido addysg uwch. Dros amser, bydd goblygiadau i'r newid hwn o ran parhau i gyflawni swyddogaethau CCAUC.

3.6 Bydd dylanwad CCAUC dros y sector addysg uwch drwy'r amodau mewn perthynas â'r grant rheolaidd a ddyrennir i sefydliadau yn lleihau dros amser wrth i gyfran lawer mwy o gyllid sefydliadau ddod o ffïoedd dysgu. Mae goblygiadau i hyn o ran y ffordd y bydd CCAUC yn:

- gorfodi rheolaethau ar ffïoedd ac ymrwymiad i gynlluniau ffïoedd;
- gwneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch;
- rhoi sicrwydd ynghylch cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau.

3.7 Mae tirlun addysg uwch yn newid yn sylweddol, o ran math y ddarpariaeth a natur y darparwyr, er enghraifft, twf mewn e-ddysgu a dysgu o bell ac ystod darparwyr mwy amrywiol, gyda mwy o gyrsiau addysg uwch yn cael eu cynnig gan sefydliadau addysg bellach a chan ddarparwyr eraill. Yn ogystal, wrth i'r grant rheolaidd a ddyrennir gan CCAUC i sefydliadau addysg uwch Cymru gael ei ddisodli gan incwm ffïoedd, bydd yn gynyddol anodd dibynnu ar swyddogaethau presennol CCAUC er mwyn: gorfodi rheolaethau ar ffïoedd, asesu ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a rhoi sicrwydd ynghylch y defnydd o gyllid cyhoeddus. Mae angen gweithredu'r rheolaethau a weinyddir gan CCAUC mewn perthynas â'r holl gyrsiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr. O ganlyniad, mae angen diwygio swyddogaethau CCAUC i adlewyrchu'r newidiadau ym maes addysg uwch, y cymorth ffïoedd dysgu a'r trefniadau cyllid.

3.8 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod yn ofynnol i bob sefydliad a darparwr arall sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gydymffurfio â rheolaethau er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru (er y bydd mesur mwy o reolaeth mewn perthynas â'r cyrsiau hynny sydd wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr, yn gymesur â natur y cymorth a ddarperir). Mae angen fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu darparwyr addysg uwch ac ansawdd eu darpariaeth; gorfodi rheolaethau ar ffïoedd; a sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch yng Nghymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno bil yn ystod y tymor Cynulliad hwn i roi darpariaeth i CCAUC reoleiddio pob cwrs addysg uwch yng Nghymru sydd wedi'i ddynodi'n awtomatig ar gyfer derbyn

cymorth statudol i fyfyrwyr. Disgrifir y darpariaethau penodol y gobeithir eu sicrhau yn yr adrannau canlynol.

# 4. System reoleiddio ddiwygiedig

4.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr, mae'n amlinellu'r trefniadau presennol o ran cymorth statudol i fyfyrwyr, ac mae'n rhoi amcan cyffredinol o'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig arfaethedig. Mae manylion pellach yn adrannau 5, 6 a 7.

4.2 Mae'n bwysig nodi **nad yw pecyn cymorth statudol Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr (gweler Ffig 2) yn rhan o'r ymgynghoriad hwn**. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr lle bynnag y gall; ehangu mynediad a sicrhau bod y rheini sydd dan anfantais yn gallu manteisio ar addysg uwch lle bynnag y dewisant astudio. Yn ganolog i'n polisi ar gyllid myfyrwyr y mae'r egwyddor y dylai mynediad i addysg uwch ddibynnu ar allu unigolion i elwa arni, yn hytrach na'r hyn y gallant fforddio ei dalu.

4.3 Dyma pam rydym wedi sefydlu'r system gyllid decaf i fyfyrwyr a fydd yn darparu'r lefelau cymorth canlynol yn ystod oes y Llywodraeth hon:

- Dros £800 miliwn ar gyfer y grant ffïoedd dysgu;
- Dros £750 miliwn ar gyfer grantiau cynhaliaeth;
- Tua £1.8 biliwn ar gyfer ffïoedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth.

4.4 Yn ogystal, **nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys cyrsiau addysg uwch rhan-amser** gan nad yw'r ffïoedd ar gyfer y cyrsiau hynny yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae addysg uwch ran-amser yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a rhagwelir y caiff cyrsiau rhan-amser eu cynnwys o fewn cwmpas y fframwaith rheoleiddio diwygiedig pan fydd yr amser yn iawn. Wrth gwrs, byddwn yn ymgynghori â'r bobl fwyaf perthnasol i weithio drwy oblygiadau cam o'r fath cyn ei gymryd.

4.5 Er bod newidiadau wedi cael eu cynnig o ran swyddogaethau statudol CCAUC, rhagwelir y bydd y Cyngor yn cadw ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd addysg a ddarperir gan sefydliadau yng Nghymru ac y bydd hefyd yn cadw ei swyddogaeth statudol fel yr awdurdod perthnasol yng Nghymru i gymeradwyo a monitro cynlluniau ffïoedd.

## Dynodi cyrsiau at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr


4.6 Ar hyn o bryd, mae ystod eang o gyrsiau addysg uwch ar gael i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a hynny yn sgil y ffaith bod Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth statudol i fyfyrwyr. O dan y trefniadau presennol, caiff cyrsiau perthnasol[4] mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus (hy

[4] Ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13, rhestrir y cyrsiau hyn yn Atodlen 2 Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 (OS 2011/886) (Cy.130), fel y'u diwygiwyd gan OS 2011/1978 (Cy.218); OS 2012/14 (Cy.5); ac OS 2012/1156 (Cy.139).

sefydliadau a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus) eu dynodi'n **awtomatig** at y diben hwn; fodd bynnag, gall darparwyr preifat (hy y rheini nad ydynt yn cael eu cynnal na'u helpu gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus) hefyd wneud cais i ddynodi cyrsiau **penodol (fesul achos)**. Mae crynodeb o'r broses bresennol yn ffigur 1 isod.

4.7 Mae'r system bresennol yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau ar sail eu trefniadau cyllid. Yng ngoleuni'r newidiadau diweddar i drefniadau cyllid addysg uwch a chymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru, bydd angen cyflwyno trefniadau diwygiedig, nid yn unig ar gyfer dynodi'n awtomatig gyrsiau addysg uwch, ond hefyd y system reoleiddio ehangach y bydd sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau dynodedig o'r fath yn gorfod cydymffurfio â hi. Mae'r newidiadau i gyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr a gyflwynwyd yn 2012/13 yn ei gwneud yn ofynnol diwygio sut caiff darparwyr cyrsiau addysg uwch eu categoreiddio a'r trefniadau presennol o ran dynodi cyrsiau.

*Ffig1: Crynodeb o'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau*




4.8 O dan y trefniadau presennol, gall myfyrwyr cymwys sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru wneud cais am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn dilyn cyrsiau sydd wedi'u dynodi. Mae swm a natur y cymorth sydd ar gael yn adlewyrchu'r gwahanol ofynion rheoleiddio sy'n berthnasol i sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus a darparwyr preifat. Gweler isod:

*Ffig 2: Crynodeb o'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth ffïoedd dysgu*

**Cymorth ffïoedd dysgu* ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd amser llawn**:

- Cyrsiau sydd wedi'u dynodi'n **awtomatig: hyd at £9.000** (benthyciad ffïoedd dysgu o hyd at £3,465 a grant ffïoedd dysgu o hyd at £5,535)
- Cyrsiau sydd wedi'u dynodi'n **benodol: hyd at £6,000** (benthyciad ffïoedd dysgu yn unig)

*Mae manylion llawn y pecyn cymorth statudol presennol i fyfyrwyr a'r gofynion cymhwysedd i'w gweld yn: http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

## Dynodi cyrsiau fesul achos

4.9 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r trefniadau presennol ar gyfer dynodi cyrsiau'n awtomatig a fesul achos, a chyflwyno dull gweithredu diwygiedig nad yw'n dibynnu ar y cyllid rheolaidd y mae sefydliadau yn ei dderbyn gan CCAUC. Un o ganlyniadau'r diwygiadau yw na fydd y diffiniadau cyfredol o sefydliadau **'a ariennir yn gyhoeddus'** ac **'nas ariennir yn gyhoeddus'** yn berthnasol yng nghyd-destun rheoleiddio'r ddarpariaeth addysg uwch nac wrth ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Mae angen diwygio yn sgil newidiadau yn y ffordd y caiff y ddarpariaeth addysg uwch ei chyllido yng Nghymru ac yng ngoleuni'r lefel sylweddol fwy o gyllid Llywodraeth Cymru a ddyrennir drwy'r drefn cymorth statudol i fyfyrwyr.


4.10 Eisoes mae gan Weinidogion Cymru y disgresiwn i ddynodi cyrsiau amser llawn a gynigir gan ddarparwyr addysg uwch nas ariennir yn gyhoeddus at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Nid yw'r sail ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr wedi newid ers 1998 pan wnaed y rheoliadau cyntaf sy'n darparu ar gyfer dynodi cyrsiau fesul achos o dan ddarpariaethau Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dynodi cyrsiau a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau fesul achos yn ymwneud â natur y cwrs, gan gynnwys ei hyd, oedran y myfyrwyr, y safonau mynediad gofynnol a'r trefniadau achredu. Nid yw'r trefniadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr fodloni gofynion o ran ei hyfywedd ariannol, sicrwydd ansawdd na chynllun cwyno i fyfyrwyr.

4.11 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi 144 o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau a ddynodwyd fesul achos a ddarperir gan ddarparwyr preifat yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13. Ar hyn o bryd, mae yna 54[5] o ddarparwyr y

[5] 48 o ddarparwyr sydd yna mewn gwirionedd, ond mae gan bedwar fwy nag un campws ac maent wedi'u dadansoddi ar wahân.

mae un neu fwy o'u cyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru. Yn achos 25 o'r rhain, nid oedd unrhyw fyfyrwyr yn derbyn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 (Ffigur 3). O'r gweddill, yn achos y mwyafrif, niferoedd bach iawn o fyfyrwyr oedd yn derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru; dim ond un oedd â mwy na 25 o fyfyrwyr o'r fath.

*Ffig 3. Darparwyr â chyrsiau sydd wedi'u dynodi fesul achos a nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cymorth (2012/13*) [data: y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr]




4.12 Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn holi rhanddeiliaid ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido cymorth statudol i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau darparwyr preifat a ddynodir fesul achos. Mae Rhan A y ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod angen cydbwyso'r ddarpariaeth o ystod eang o gyfleoedd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru â'r ffaith y gallai ymateb i'r galw olygu costau sylweddol. Un o'r prif ystyriaethau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwariant cyhoeddus ar gymorth i fyfyrwyr yw'r budd cyhoeddus a ddaw o'r cymhorthdal, a ddaw yntau yn rhannol o fenthyciadau ffïoedd dysgu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

## Statws elusennol

4.13 Mae cynnig cymorth i fyfyrwyr cymwys yn golygu costau sylweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffaith bod y Llywodraeth yn parhau i roi cymhorthdal at y benthyciadau dan sylw ac y caiff cyfran o'r benthyciadau eu dileu cyn iddynt gael eu had-dalu yn cyfrannu at y costau hynny. Mae'r ffactorau hyn yn adlewyrchu cost economaidd lawn darparu benthyciadau ffïoedd dysgu i fyfyrwyr cymwys. Un o ganlyniadau benthyciadau o'r fath gan Lywodraeth Cymru yw nad oes angen i sefydliadau a darparwyr addysg uwch sefydlu eu cyfleusterau credyd eu hunain i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod

sefydliadau a darparwyr eraill ar eu helw yn sgil cymhorthdal Llywodraeth Cymru, o ran gwarantu benthyciadau a darparu grant ffïoedd dysgu. Mae gan Lywodraeth Cymru, felly, fuddiant yn y ddarpariaeth y rhoddir cymhorthdal tuag ati, a ddaw’n rhannol o fenthyciadau myfyrwyr.

4.14 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod disgwyl i bob sefydliad a darparwr addysg uwch sy'n elwa ar rywfaint o gymhorthdal ariannol ar ffurf benthyciadau neu grantiau statudol ar gyfer ffïoedd myfyrwyr gyfrannu at les ehangach y cyhoedd. Un ffordd o sicrhau na ddefnyddir cymhorthdal o'r fath er elw i gyfranddeiliaid sefydliadau a darparwyr eraill sy'n bodoli i wneud elw yw ei gwneud yn ofynnol i bob corff o'r fath sydd am i Lywodraeth Cymru ddynodi eu cyrsiau fod â statws elusennol.

4.15 **Bydd hyn yn golygu pennu gofyniad newydd ar ddechrau'r broses o ddynodi cwrs. Bydd yn rhaid i'r sefydliad neu'r darparwr arall gadarnhau bod ganddo statws elusennol ar gyfer trefniadau dynodi awtomatig a fesul achos.** Os bydd sefydliad neu ddarparwr sydd â chynllun ffïoedd yn colli ei statws elusennol, yna caiff y gymeradwyaeth i'r cynllun ffïoedd hwnnw ei thynnu'n ôl. Mewn sefyllfa fel hyn, rydym yn cynnig cyflwyno **mesurau pontio** i ofalu bod myfyrwyr sydd wedi dechrau eu cyrsiau addysg uwch gyda darparwr neu sefydliad o'r fath yn gallu parhau i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu hastudiaethau.

## Amcan cyffredinol o'r system reoleiddio ddiwygiedig

4.16 Mae'r adran hon yn rhoi amcan cyffredinol o'r system reoleiddio newydd arfaethedig; mae'n disgrifio’r gwelliannau arfaethedig i swyddogaethau statudol CCAUC; ac mae'n amlinellu'r rheolaethau a'r gofynion eraill sy'n berthnasol i sefydliadau a darparwyr eraill sydd â chyrsiau sydd wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Mae'r adrannau wedyn yn rhoi mwy o fanylion am agweddau penodol ar y system reoleiddio, sef:

- rheolaethau ar ffïoedd a mynediad teg (adran 5);
- asesu ansawdd (adran 6);
- sicrwydd ariannol a llywodraethu (adran 7).

4.17 O dan y system reoleiddio ddiwygiedig, caiff darparwyr addysg uwch yng Nghymru **yr opsiwn** naill ai i ofyn am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n *awtomatig* neu eu dynodi'n *benodol* at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Yn sicr, bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y gofynion rheoleiddio sy'n berthnasol i'r ddau gategori dynodi. Mater i'r sefydliadau a'r darparwyr unigol eraill fydd dewis llwybr dynodi, ar sail natur eu darpariaeth a'u gallu i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol.

4.18 Y bwriad yw i'r gofynion rheoleiddio fod yn gymesur â'r manteision, hy bydd mwy o reoleiddio ar sefydliadau a darparwyr eraill y dynodir eu cyrsiau yn awtomatig gan y bydd eu myfyrwyr nhw yn gallu manteisio ar y pecyn grant a benthyciad llawn ar gyfer ffïoedd dysgu o gymharu â'r cymorth mwy

cyfyngedig a gynigir mewn perthynas â chyrsiau a ddynodir yn benodol fesul achos. Gweler Ffigur 4 isod.

*Ffigur 4: Amcan cyffredinol o'r System Reoleiddio Ddiwygiedig Arfaethedig*

**Dynodi cyrsiau ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr**

Sefydliad neu ddarparwr arall yng Nghymru sydd â statws elusennol sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch

| ***Dynodi awtomatig*** | ***Dynodi fesul achos*** |
| --- | --- |
| **Angen gwneud cais i CCAUC fel yr awdurdod perthnasol i gymeradwyo'r** cynlluniau ffïoedd | **Angen gwneud cais -** ar gyfer pob cwrs unigol<br><br>Os caiff ei gymeradwyo: |
| Dynodir pob cwrs perthnasol **yn awtomatig** | Dynodir cyrsiau perthnasol **fesul achos** |
| Angen cydymffurfio â:<br><br>• rheolaethau ar ffïoedd<br>• ymrwymiadau i gynlluniau ffïoedd<br>• asesiadau ansawdd<br>• gofynion sicrwydd ariannol a llywodraethu | Angen cydymffurfio â:<br><br>• Meini prawf dynodi penodol* ynghylch ansawdd y ddarpariaeth, sicrwydd ariannol a llywodraethu<br><br>* rydym am ymgynghori ymhellach ynghylch hyn |
| Pecyn cymorth ffïoedd<br><br>• Cymorth ffïoedd dysgu hyd at £9,000 (benthyciad a grant) | Pecyn cymorth ffïoedd<br><br>• Cymorth ffïoedd dysgu hyd at £6,000 (benthyciad yn unig) |

4.19 Bydd gofyn i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig:

- fod â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo - bydd angen statws elusennol er mwyn gwneud cais am gynllun ffïoedd

Gallai'r ystod o sefydliadau a darparwyr addysg uwch sy'n gymwys i wneud cais am gynllun ffïoedd o dan y fframwaith rheoleiddio arfaethedig fod yn ehangach na'r ystod o sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan CCAUC ar hyn o bryd. Gallai hyn olygu y bydd angen i rai darparwyr nad oedd ganddynt gynllun ffïoedd o'r blaen ystyried p'un a allant gydymffurfio â'r holl reolaethau. Rydym yn rhagweld y gallai fod angen i CCAUC roi gwybodaeth i ymgeiswyr o'r fath am y gofynion penodol a nodir isod.

Ar ôl gwneud cais llwyddiannus i gymeradwyo cynllun ffïoedd, rhaid i'r sefydliad neu'r darparwr:

- gydymffurfio â'r terfynau rhagnodedig o ran ffïoedd, yn unol â'r rheoliadau;
- cydymffurfio â gofynion CCAUC mewn perthynas ag ansawdd eu darpariaeth a'u trefniadau o ran sicrwydd ariannol a llywodraethu;
- cynnal eu statws elusennol.

4.20 Bydd gofyn i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi fesul achos:

- ddangos bod ganddynt statws elusennol;
- dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ansawdd eu darpariaeth a'u trefniadau ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethu a pharhau i allu gwneud hynny tra bydd eu cyrsiau wedi'u dynodi.

## Gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd – rôl ddiwygiedig ar gyfer CCAUC

4.21 Wrth gynllunio'r fframwaith rheoleiddio newydd, ein bwriad yw adeiladu ar swyddogaethau presennol CCAUC a'i amodau cyllido. Fodd bynnag, bydd angen diwygio a diweddaru swyddogaethau presennol CCAUC er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa newydd o ran cyllid. Bydd hyn yn golygu diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau bod y swyddogaethau a'r dyletswyddau angenrheidiol yn cael eu rhoi i'r Cyngor i weithredu rheolaethau mewn perthynas â therfynau ffïoedd, cynlluniau ffïoedd, asesu ansawdd, a sicrwydd ariannol a llywodraethu heb bennu amodau cyllid. Yn gyffredinol, bydd y newidiadau hyn yn golygu rôl reoleiddio fwy ar gyfer CCAUC wrth i'w rôl gyllido leihau.

4.22 O dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig, bydd CCAUC:

- yn parhau â'i ddyletswydd statudol i ofalu bod darpariaeth yn cael ei gwneud i asesu ansawdd addysg uwch;
- yn cadw'i swyddogaeth o fonitro cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau;
- yn cadw'i rôl o orfodi rheolaethau ar ffïoedd;
- yn cadw'i bŵer i fonitro a gorfodi cynlluniau ffïoedd.

4.23 Y newid mwyaf yw y bydd angen addasu'r swyddogaethau hyn yn ôl yr amgylchedd cyllid newydd ac, yn y dyfodol, **byddant yn berthnasol i bob darparwr sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo** yn hytrach na'r sefydliadau hynny sy'n derbyn cyllid rheolaidd gan CCAUC. Yn ogystal, bwriedir i'r Bil sefydlu **trefniadau newydd ar gyfer ymyrryd a sancsiynau** er mwyn gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheolaethau. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn adrannau 5, 6 a 7.

4.24 Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd, y bwriad yw bod CCAUC yn ymgymryd â rôl 'porthor' mewn perthynas â'r broses gais gan roi gwybodaeth i ymgeiswyr ynghylch y broses ddynodi a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r llwybrau dynodi awtomatig a fesul achos fel y bo'n briodol. Rydym yn ystyried mai CCAUC sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r swyddogaeth hon, gan adeiladu ar wybodaeth arbenigol a phrofiad sylweddol y Cyngor o berfformiad y sector addysg uwch yng Nghymru hyd yn hyn.

4.25 Bwriedir i waith dynodi cyrsiau fesul achos barhau gyda Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, rydym wrthi'n ystyried y rolau y gallai CCAUC a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr eu chwarae wrth weinyddu'r broses. Efallai yr ymgynghorwn rywbryd eto ynghylch trefniadau i ddynodi cyrsiau penodol.

## Breinio a dilysu cyrsiau addysg uwch

4.26 Efallai y bydd gan sefydliadau a darparwyr eraill cyrsiau addysg uwch bob math o drefniadau i ddarparu eu cyrsiau. Efallai bod ganddynt berthynas dilysu-yn-unig, hy bydd sefydliad sydd â phwerau dyfarnu graddau yn y DU (corff cydnabyddedig) yn dilysu'r cyrsiau gradd a ddarperir gan sefydliad neu ddarparwr arall nad oes ganddynt bwerau dyfarnu graddau (corff rhestredig[6]). Neu efallai bod y cyrsiau a luniwyd gan y sefydliad dyfarnu graddau yn cael eu darparu, neu eu darparu'n rhannol, gan sefydliad neu ddarparwr arall (trefniadau breinio).

[6] Diffinnir cyrff rhestredig fel sefydliadau a darparwyr eraill nad oes ganddynt y pŵer i ddyfarnu eu graddau eu hunain ond sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch cyflawn sy'n arwain at raddau cydnabyddedig yn y DU a ddyfernir gan sefydliad arall sydd â phwerau dyfarnu graddau. Mewn perthynas â Chymru, mae cyrff rhestredig wedi'u hamlinellu yng Ngorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Rhestru) (Cymru) 2012 (OS 2012/1259 (Cy154). http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/1259/contents/made

4.27 Yn achos trefniadau **dilysu-yn-unig**, rydym o'r farn mai'r sefydliad neu'r darparwr arall sy'n **darparu'r cwrs** sy'n gyfrifol am y cwrs. Y sefydliad neu'r darparwr sy'n ysgwyddo'r gwaith o ddarparu'r cwrs a fydd, felly, yn gyfrifol naill ai am wneud cais am gynllun ffïoedd neu am ddynodi ei gyrsiau fesul achos.

4.28 Yn achos trefniadau breinio, rydym yn cydnabod y gallai fod yna bob math o drefniadau, ee gall y sefydliad breinio (y breiniwr) gynllunio'r cwrs a phennu'r ffi ddysgu ond bod y cwrs yn cael ei addysgu gan y sefydliad sydd wedi'i freinio. Ar y llaw arall, gall y sefydliad breinio ddirprwyo'r gwaith o gynllunio'r cwrs, ei ddarparu a phennu'r trefniadau ffïoedd i'r sefydliad sydd wedi'i freinio. Mae'n debygol y bydd yna drefniadau amrywiol eraill hefyd sydd wedi datblygu dros amser. Efallai y bydd rhai o'r trefniadau hyn wedi'u sefydlu rhwng dau sefydliad a ariennir yn gyhoeddus neu rhwng sefydliad a ariennir yn gyhoeddus a darparwr nas ariennir yn gyhoeddus.

4.29 Ar hyn o bryd, mae modd dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr os ydynt yn bodloni'r gofynion yn rheoliadau Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth i fyfyrwyr[7]. Ymhlith elfennau eraill, mae'r gofynion hyn yn nodi bod yn rhaid i'r cwrs gael ei ddarparu'n gyfan gwbl gan sefydliad addysgol yn y DU a ariennir yn gyhoeddus neu gael ei ddarparu gan sefydliad o'r fath mewn cydweithrediad â sefydliad y tu allan i'r DU. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod sefydliad yn darparu cwrs os mai nhw sy'n darparu'r addysg ac yn ei goruchwylio.

4.30 Mae nifer o ffyrdd posibl o gymhwyso'r trefniadau rheoleiddio newydd i gyrsiau breiniol. Cynigir y dylai'r terfynau ffïoedd fod yn berthnasol i'r cyrsiau breiniol, yn gyffredinol, ac y dylai'r cyrsiau hyn gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr. Er mwyn symleiddio'r trefniadau atebolrwydd, rydym yn cynnig, fel man cychwyn ac yn amodol ar y pwyntiau a ganlyn, y dylai cwrs breiniol, o dan y fframwaith rheoleiddio newydd, fod yn gwrs cymwys[8] o ran y terfyn ffïoedd os oes gan y sefydliad neu'r darparwr arall **sy'n breinio'r ddarpariaeth (hy y breiniwr) gynllun sydd wedi'i gymeradwyo.** Rydym yn cynnig y dylid dynodi cyrsiau o'r fath yn awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai sefydliad neu ddarparwr arall nad oes ganddo gynllun ffïoedd allu gwneud cais am i gyrsiau o'r fath gael eu dynodi fesul achos.

4.31 Lle bydd sefydliad neu ddarparwr arall sydd â chynllun ffïoedd yn breinio rhai o'i gyrsiau addysg uwch i sefydliad neu ddarparwr **nad oes ganddo statws elusennol,** rydym yn cynnig na ddylai'r cyrsiau hynny fod yn gyrsiau cymwys o ran terfynau ffïoedd. Cynigir na ddylai cyrsiau o'r fath gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ynghylch gwerth y cynigion hyn (mae mwy o fanylion yn enghreifftiau 6 i 8 isod) a/neu unrhyw anawsterau a allai godi.

---

[7] Mae rheoliad 5 OS 2011/886 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu'r sail ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion blwyddyn academaidd 2012/13.

[8] Mae cyrsiau y mae terfynau ar eu ffïoedd yn 'gyrsiau cymwys' o dan Reoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011 (OS 2011/691) fel y'u diwygiwyd.

## Beth yw'r goblygiadau i sefydliadau a darparwyr eraill cyrsiau addysg uwch?

4.32 O dan y system reoleiddio ddiwygiedig, bydd rhai newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr mewn perthynas â'r llwybr dynodi awtomatig a'r llwybr dynodi penodol. Mae'r enghreifftiau isod yn trafod y goblygiadau i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi. O hyn ymlaen, cyfeirir at ddarparwyr cyrsiau addysg uwch sy'n ddarostyngedig i ofynion y fframwaith rheoleiddio newydd mewn perthynas â dynodi cyrsiau yn awtomatig fel *'darparwyr a reoleiddir'*.

- **Enghraifft 1**: Mae sefydliad yng Nghymru sydd â statws elusennol am i un neu fwy o'i gyrsiau addysg uwch gael eu dynodi *fesul achos*. Gyda beth y bydd angen iddo gydymffurfio?

  **Ateb**: **Nid** yw sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i gwrs gael ei ddynodi *fesul achos* yn *ddarparwyr a reoleiddir* ac **ni** fydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolaethau ar ffïoedd na chynlluniau ffïoedd, ond bydd angen iddynt fodloni'r meini prawf sy'n berthnasol i ddynodiadau fesul achos sy'n debygol o ymwneud ag ansawdd eu darpariaeth yn ogystal â chyflwr ariannol a'r trefniadau rheoli a llywodraethu a nodir gan Lywodraeth Cymru. Gallai'r trefniadau hyn fod yn destun ymgynghoriad pellach maes o law.

- **Enghraifft 2**: Mae sefydliad yng Nghymru sydd â statws elusennol am i'w gyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n *awtomatig*. Gyda beth y bydd angen iddo gydymffurfio?

  **Ateb**: Er mwyn i gyrsiau addysg uwch sefydliad gael eu dynodi'n awtomatig, bydd angen cynllun ffïoedd arno sydd wedi'i gymeradwyo. Bydd angen i'r sefydliad wneud cais i CCAUC (awdurdod perthnasol Cymru) i'w gymeradwyo. O gael cynllun o'r fath, bydd y sefydliad yn *ddarparwr a reoleiddir* a bydd angen iddo gydymffurfio â chap ar ffïoedd o £9,000, bodloni ymrwymiadau'r cynllun ffïoedd, cydymffurfio â gofynion CCAUC o ran ansawdd, arian a llywodraethu yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau y gallai CCAUC eu cyhoeddi mewn perthynas â'r rheolaethau.

- **Enghraifft 3**: Hoffai sefydliad yng Nghymru **nad** oes ganddo statws elusennol i'w gyrsiau addysg uwch gael eu dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Gyda beth y bydd angen iddo gydymffurfio?

  **Ateb**: **Ni** fydd sefydliadau a darparwyr eraill nad oes ganddynt statws elusennol yn gymwys i wneud cais am gynllun ffïoedd, ac o ganlyniad ni fydd eu cyrsiau addysg uwch yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig. Yn ogystal, o dan y cynigion i adolygu'r trefniadau dynodi fesul achos, ni fydd darparwyr o'r fath yn gymwys i wneud cais am i'w cyrsiau penodol gael eu dynodi. Mae hyn yn golygu **na** fydd darparwyr o'r fath yn ddarostyngedig i ofynion o ran rheolaethau ar ffïoedd neu gynlluniau ffïoedd, na threfniadau CCAUC i sicrhau ansawdd, cyflwr ariannol neu drefniadau llywodraethu. Ni fydd myfyrwyr yn gallu manteisio ar gymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru nac elwa ar gap ar ffïoedd dysgu.

- **Enghraifft 4:** Mae sefydliad yng Nghymru sydd â statws elusennol yn codi ffïoedd dysgu o lai na £4,000 y flwyddyn am gyrsiau gradd amser llawn, a hoffent i'r cyrsiau hynny gael eu dynodi'n *awtomatig*. Beth fydd angen iddo ei wneud?

  **Ateb** - Bydd y darparwr hwn yn gymwys i wneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffïoedd. Bydd cymeradwyo'r cynllun ffïoedd yn golygu bod y darparwr yn *ddarparwr a reoleiddir;* bydd angen iddo gydymffurfio â'r rheolaethau ar ffïoedd a chyflawni ei ymrwymiadau o ran ei gynllun ffïoedd. Bydd hefyd yn gorfod bodloni gofynion CCAUC o ran ansawdd, arian a threfniadau llywodraethu ac unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan CCAUC mewn perthynas â'r rheolaethau. Bydd y trefniant hwn hefyd yn berthnasol i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am godi ffïoedd sy'n uwch na £4,000 ond yn ddim mwy na £9,000.

- **Enghraifft 5:** Mae gan ddarparwr yng Nghymru statws elusennol a chaiff ei gyrsiau eu dilysu gan Brifysgol neu sefydliad arall sydd â Phwerau Dyfarnu Graddau'r DU (hy mae'r darparwr yng Nghymru yn gorff rhestredig ac mae'r sefydliad dilysu yn gorff cydnabyddedig). A fydd y darparwr hwn yn gymwys i wneud cais i gymeradwyo ei gynllun ffïoedd, gan sicrhau drwy hynny fod ei gyrsiau addysg uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig?

  **Ateb** - Bydd. Bydd y darparwr hwn (ac unrhyw sefydliad) yng Nghymru sydd â statws elusennol ac sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yn gymwys i wneud cais i gymeradwyo ei gynllun ffïoedd. O fod â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo, caiff ei gyrsiau addysg uwch eu dynodi'n awtomatig, a bydd y darparwr yn ddarostyngedig i reolaethau ar ffïoedd a gofynion CCAUC o ran ansawdd, arian a threfniadau llywodraethu. Os nad yw'r darparwr (neu'r sefydliad) yn dymuno gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffïoedd, gall wneud cais i ddynodi un neu fwy o'i gyrsiau addysg uwch fesul achos os yw'n dymuno.

- **Enghraifft 6**: Mae sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd yn breinio rhai o'i gyrsiau addysg uwch i ddarparwr **<u>nad</u> oes ganddo statws elusennol**. A fyddai'r cap ar ffïoedd yn berthnasol i'r cyrsiau hynny ac a fyddent yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr?

  **Ateb** - Na fyddent. O dan y trefniadau arfaethedig, ni chaiff cyrsiau addysg uwch a ddarperir o dan drefniadau breinio, lle nad oes gan y sefydliad sydd wedi'i freinio statws elusennol, eu hystyried yn gyrsiau cymwys o ran terfynau ffïoedd a nodir yng nghynllun ffïoedd darparwr a reoleiddir. Cynigir na ddylai cyrsiau o'r fath gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

- **Enghraifft 7**: Mae sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd yn breinio rhai o'i gyrsiau addysg uwch i ddarparwr **sydd â statws elusennol**, ond nad oes ganddo gynllun ffïoedd. A fyddai'r cap ar ffïoedd yn berthnasol i'r cyrsiau hynny? A fyddai'r cyrsiau hynny yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr?

**Ateb** - Rydym yn cynnig y dylai'r cyrsiau fod yn gyrsiau cymwys o ran rheolaethau ffïoedd ac y dylid eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Cynigir y dylai terfynau ffïoedd fod yn berthnasol i gyrsiau addysg uwch a ddarperir o dan drefniadau breinio, lle mae'r breiniwr yn ddarparwr a reoleiddir a lle mae gan y sefydliad sydd wedi'i freinio statws elusennol, ac y dylid eu dynodi'n awtomatig.

- **Enghraifft 8:** Mae sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd yn breinio rhai o'i gyrsiau addysg uwch i ddarparwr yng Nghymru **sydd â'i gynllun ffïoedd ei hun**. A fyddai'r cap ar ffïoedd y breiniwr yn berthnasol i'r cyrsiau hynny? A fyddai'r cyrsiau hynny yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr?

  Ateb - Byddent. Byddai'r cyrsiau yn ddarostyngedig i reolaethau ar ffïoedd (caiff y terfynau ffïoedd eu pennu gan gynllun ffïoedd y breiniwr) a byddai'r cwrs yn cael ei ddynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr.

- **Enghraifft 9**: A fyddai darparwr yng Nghymru **sydd â statws elusennol,** ond nad oes ganddo gynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo, yn gallu gwneud cais am i gwrs addysg uwch y mae wedi'i freinio i **sefydliad elusennol** gael ei ddynodi fesul achos, p'un a oes gan y sefydliad hwnnw gynllun wedi'i gymeradwyo ai peidio?

  Ateb - Byddai. Byddai'r darparwr yn gallu gwneud cais am i gwrs o'r fath gael ei ddynodi fesul achos. Bydd absenoldeb cynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo yn golygu nad oes terfynau ffïoedd perthnasol, ond os bydd y cwrs wedi'i ddynodi'n benodol gan Weinidogion Cymru, yna gallai myfyrwyr cymwys sy'n dilyn y cwrs wneud cais am gymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

- **Enghraifft 10**: A fyddai darparwr yng Nghymru **sydd â statws elusennol,** ond nad oes ganddo gynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo, yn gallu gwneud cais am i gwrs addysg uwch y mae wedi'i freinio i **sefydliad anelusennol** gael ei ddynodi fesul achos?

  Ateb - Na fyddai. Ni fyddai'r darparwr yn gallu gwneud cais am i gwrs o'r fath gael ei ddynodi fesul achos. Bydd absenoldeb cynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo yn golygu nad oes terfynau ffïoedd perthnasol, ond ni allai myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs wneud cais am gymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

## Cwestiynau ymgynghori: system reoleiddio ddiwygiedig

1. **Yng ngoleuni'r rôl reoleiddio fwy y bwriedir ei rhoi i CCAUC, a ddylid newid enw'r Cyngor?**

2. **Rydym yn cydnabod bod yna amrywiaeth o drefniadau breinio eisoes yn bodoli yng Nghymru, a bod y rhain wedi'u datblygu o dan y system gyllid a oedd gennym cyn i'r trefniadau newydd o ran ffïoedd a chymorth i fyfyrwyr gael eu cyflwyno. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ynghylch sut dylid delio â threfniadau breinio o dan y fframwaith rheoleiddio newydd, yn benodol:**

   (a) **A fydd y cynnig i wneud y sefydliad neu'r darparwr sy'n breinio'r cwrs yn gyfrifol naill ai am wneud cais am gynllun ffïoedd neu am wneud cais i ddynodi ei gyrsiau fesul achos yn gweithio'n ymarferol?**

   (b) **A allai'r cynnig hwn greu problemau cyflenwi? Os felly, nodwch y problemau.**

   (c) **A oes unrhyw ddulliau gweithredu eraill posibl yr ydych am iddynt gael eu hystyried?**

# 5. Rheolaethau ar ffïoedd a mynediad teg

## Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid

### Gorfodi terfynau ffïoedd

5.1 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli ffïoedd dysgu yn dibynnu ar reoliadau[9] i ragnodi terfynau ffïoedd y gall sefydliadau perthnasol eu codi drwy ffïoedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn. Yr hyn a olygir wrth 'sefydliadau perthnasol' yw sefydliadau sy'n derbyn grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill gan CCAUC a chaiff y terfynau presennol o ran ffïoedd eu pennu yn ôl uchafsymiau sylfaenol ac uwch o £4,000 a £9,000. Rheoliadau hefyd sy'n pennu'r cyrsiau y mae'r cap ar ffïoedd yn berthnasol iddynt[10].

5.2 O dan y trefniadau presennol, mae'n ofynnol i sefydliadau perthnasol sy'n codi ffïoedd dysgu uwchlaw'r swm sylfaenol sicrhau mynediad teg i addysg uwch. O fis Medi 2012, gofynnir i bob sefydliad sy'n derbyn arian rheolaidd gan CCAUC ac sydd am godi ffïoedd uwchlaw £4,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn feddu ar gynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo. Rhaid i gynllun ffïoedd sefydliad gynnwys mesurau, megis gwaith codi pontydd a chymorth ariannol, sydd i'w cyflawni gan y sefydliad er mwyn hyrwyddo addysg uwch a chyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch. Mae yna reoliadau sy'n berthnasol i'r trefniadau hyn hefyd[11].

5.3 Ar hyn o bryd, gall CCAUC weinyddu cosbau ariannol os bydd sefydliad yn methu â chydymffurfio â'r cap perthnasol ar ffïoedd dysgu neu ddarpariaethau ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd (lle mae cynllun ffïoedd yn bod). Mewn amgylchiadau o'r fath, mae CCAUC yn gallu adfachu cyllid a dalwyd neu dynnu cyllid a ddyfarnwyd (ond na thalwyd) yn ôl. Yn sgil newidiadau yn y ffordd y caiff addysg uwch ei gyllido, bydd y sancsiynau hyn yn llai effeithiol yn y dyfodol wrth i swm y cyllid rheolaidd a ddyrennir gan CCAUC leihau ac i swm yr incwm a ddaw yn sgil ffïoedd dysgu gynyddu.

5.4 Er mwyn sicrhau y gall terfynau ffïoedd barhau i gael eu gorfodi ar sefydliadau, bydd angen gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn darparu ffordd arall o orfodi'r terfynau a ragnodir yn y rheoliadau. Mae'r trefniadau presennol wedi'u crynhoi yn Ffigur 5.

---

[9] Rheoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011.
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/885/made

[10] Rheoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011 fel y'u diwygiwyd gan OS 2011/1978 ac OS 2012/1630.
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/691/made

[11] Rheoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011.
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/884/made

## Trefniadau mynediad teg – cynlluniau ffïoedd

5.5 Ym Mawrth 2011, dynodwyd CCAUC yn rheoleiddiwr mynediad teg ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.[12] Fel yr awdurdod perthnasol, mae CCAUC yn statudol-gyfrifol am gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffïoedd addysg uwch. Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau[13] yn darparu y gall cynlluniau ffïoedd gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad fonitro, yn y ffordd a amlinellir yn ei gynllun, i ba raddau y mae'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun a'i gynnydd o ran cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y cynllun.

5.6 Ar hyn o bryd - ac yn ychwanegol at y cosbau cyllid a nodwyd uchod - y prif sancsiwn sydd ar gael i CCAUC mewn perthynas â sefydliad sy'n methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd yw gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd ar gyfer y sefydliad hwnnw pan ddaw ei gynllun presennol i ben. (Yr hyn a olygir wrth 'ddarpariaethau cyffredinol' cynllun ffïoedd yw'r darpariaethau hynny, ar wahân i'r terfyn ffïoedd, sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal neu hyrwyddo addysg uwch). O dan rai amgylchiadau, ee lle bydd sefydliad wedi gwneud cynnydd o ran ymrwymiadau ei gynllun ffïoedd ond heb gyrraedd pob un o'r targedau yn ei gynllun, efallai yr ystyrir bod gwrthod cymeradwyo ei gynllun ffïoedd pan fydd yn amser ei adnewyddu yn gosb rhy lym ac felly na fydd hynny'n digwydd. Rydym o'r farn y byddai o fudd pe bai sancsiynau eraill ar gael i CCAUC mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r trefniadau presennol wedi'u crynhoi yn Ffigur 5.

5.7 Mae canllawiau presennol Gweinidogion Cymru[14] i CCAUC yn awgrymu mai mater i'r Cyngor yw penderfynu ar y trefniadau mwyaf effeithiol ar gyfer monitro cynlluniau ffïoedd ac y dylai myfyrwyr a'u cynrychiolwyr fod yn rhan o'r broses hon. Ar hyn o bryd, deellir bod gan CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, bŵer i fonitro i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio â'u cynlluniau ffïoedd. Er gwaetha'r ffaith bod gan CCAUC bŵer ymhlyg o'r fath, rydym o'r farn y byddai o gymorth pe nodid yn glir bod gan CCAUC y pŵer i wneud hyn. Yn ogystal, rydym o'r farn y dylid nodi'n glir bod gan CCAUC y pŵer i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffïoedd, naill ai'n unigol neu'n gyffredinol.

5.8 Yng ngoleuni'r cynnydd yn y ffïoedd dysgu y gall sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan CCAUC ei godi, bellach, ar fyfyrwyr gradd ynghyd â newidiadau yng nghyllid CCAUC er mwyn ehangu mynediad i addysg uwch, rydym o'r farn bod angen cryfhau'r trefniadau statudol presennol i sicrhau mynediad teg i addysg uwch. Yn benodol, rydym o'r farn y byddai'r system yn well pe bai

---

[12] Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011. http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/658/contents/made

[13] Rheoliadau Ffïoedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011. http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/884/contents/made

[14] *Guidance to HEFCW on Fee Plan Approval and Enforcement*, Ebrill 2011.

mwy o dryloywder o ran yr wybodaeth sydd ar gael am y cynnydd y mae sefydliadau yn ei wneud o ran ymrwymiadau eu cynlluniau ffïoedd.

*Ffig 5: Crynodeb o'r rheolaethau presennol o ran ffïoedd dysgu a mynediad teg*

**Terfynau Ffïoedd**:

- yn berthnasol i sefydliadau sy'n derbyn grant rheolaidd gan CCAUC
- £4,000 (swm sylfaenol) heb gynllun ffïoedd a gymeradwywyd
- £9,000 (swm uwch) gyda chynllun ffïoedd a gymeradwywyd

**Sancsiynau:**

- Gall CCAUC weinyddu cosbau ariannol yn achos sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio â'r terfyn perthnasol o ran ffïoedd dysgu drwy adfachu grant a dalwyd neu ddal grant a ddyfarnwyd yn ôl.
- Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffïoedd penodol yn ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd.

**Cynlluniau Ffïoedd:**

- yn amodol ar gymeradwyaeth CCAUC ac yn cael eu monitro ganddo
- rhaid iddynt amlinellu ymrwymiadau sefydliadau i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch ac i hyrwyddo addysg uwch
- rhaid i sefydliadau gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau a gymeradwywyd

**Sancsiynau:**

- Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd os bydd sefydliad wedi methu â chyflawni ymrwymiadau ei gynllun ffïoedd.
- Gall CCAUC weinyddu cosbau ariannol yn achos sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau a gymeradwywyd drwy adfachu grant a dalwyd neu ddal grant a ddyfarnwyd yn ôl.

**Cofier:**

- **Dim ond** i sefydliadau sy'n derbyn cymorth grant rheolaidd gan CCAUC y mae'r rheolaethau uchod yn berthnasol.

## Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd

5.9 Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn holi barn rhanddeiliaid ynghylch a ellid gwella'r trefniadau presennol i sicrhau mynediad teg i addysg uwch ac a ddylid cryfhau pwerau CCAUC, gan gynnwys ei bwerau fel yr awdurdod perthnasol. Er bod ymateb cymysg ynghylch y mater hwn, rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol cyflwyno rhai newidiadau i'r trefniadau presennol fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio newydd, a hynny yng ngoleuni'r

newidiadau i drefniadau cyllid rheolaidd CCAUC ac effeithiau posibl y newidiadau hynny mewn perthynas ag ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru.

## Gorfodi terfynau ffïoedd

5.10 O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd rhai newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli ffïoedd dysgu yng Nghymru. Y cynnig ar gyfer y dyfodol yw dynodi cyrsiau addysg uwch perthnasol yr holl sefydliadau a'r darparwyr hynny sydd â chynllun ffïoedd a gymeradwywyd (darparwyr a reoleiddir) yn awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. Y prif newid o dan y trefniadau newydd fydd cael gwared â'r 'swm sylfaenol' (£4,000 ar hyn o bryd). Y bwriad yw rhagnodi un uchafswm ffïoedd yn unig yn y rheoliadau. Rydym yn cynnig pennu terfyn ffïoedd sy'n cyfateb â'r 'swm uwch' presennol, sef £9,000 ar hyn o bryd.

5.11 Bydd gofyn i ddarparwyr a reoleiddir gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- **ni chaiff y ffïoedd dysgu a godir ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn fod yn uwch na'r terfyn penodol a nodir yn y cynllun ffïoedd a gymeradwywyd;**
- **ni chânt fod yn uwch na'r uchafswm penodol a nodir yn y rheoliadau.**

5.12 Un o'r prif wahaniaethau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd yw y bydd yn ofynnol i'r holl sefydliadau a'r darparwyr sydd â chynllun ffïoedd a gymeradwywyd (darparwyr a reoleiddir) gydymffurfio â'r terfynau ffïoedd yn eu cynllun yn ogystal â darpariaethau cyffredinol y cynllun hwnnw. Ni fydd lefel y ffïoedd a godir ar gyfer cyrsiau a ddynodir yn awtomatig yn newid y gofyniad hwn. Fel nawr, dim ond i gyrsiau cymwys a ddilynir gan fyfyrwyr cymwys yn unol â'r rheoliadau y bydd y terfynau ffïoedd hyn yn berthnasol. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu cyrsiau gradd, cyrsiau TAR, a chyrsiau Diploma Cenedlaethol Uwch a Thystysgrif Cenedlaethol Uwch a astudir gan fyfyrwyr gradd gyntaf amser llawn neu gymwysterau cyfatebol. Y cynnig yw **na fydd** darpariaethau'r Bil yn newid ystod y cyrsiau y bydd y rheolaethau ar ffïoedd dysgu yn berthnasol iddynt.

5.13 Gwahaniaeth arall o gymharu â'r trefniadau presennol yw'r ffordd y caiff y rheolaethau uchod eu gorfodi. Fel y disgrifiwyd yn adran 4 y ddogfen hon, ni fydd CCAUC, bellach, yn gorfodi rheolaethau ar ffïoedd dysgu drwy delerau ac amodau sydd ynghlwm wrth gyllid grant rheolaidd. Yn lle hynny, o dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd modd i CCAUC orfodi rheolaethau ar ffïoedd fel y disgrifir isod.

5.14 Os bydd CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â'r terfynau ffïoedd a nodir yn ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd, yna rydym yn cynnig ei gwneud yn bosibl i CCAUC **roi cyfarwyddyd i'r darparwr**:

- o gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r terfyn ffïoedd priodol, ee lleihau'r ffi i'r terfyn penodol a nodir yn y cynllun ffïoedd; a/neu
- o ad-dalu ffïoedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd yn flaenorol, hy ffïoedd dysgu sy'n uwch na'r terfyn ffïoedd.

Rydym o'r farn bod angen y ddwy reolaeth uchod i sicrhau bod darparwyr a reoleiddir yn cydymffurfio â'r terfynau ffïoedd a bennwyd yn eu cynlluniau a gymeradwywyd, a hefyd i sicrhau, os bydd ffïoedd yn cael eu codi sydd uwchlaw'r terfyn a myfyrwyr neu noddwyr wedyn yn eu talu, bod y ffïoedd hynny a oedd uwchlaw'r terfyn yn cael eu had-dalu. I'r perwyl hwn rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth er mwyn gallu gorfodi darparwr i gydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath gan CCAUC **drwy waharddeb llys**.

5.15 Yn ogystal, os bydd darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio naill ai â chyfarwyddyd i addasu ei ffïoedd er mwyn cydymffurfio â'r terfyn ffïoedd perthnasol neu â chyfarwyddyd i ad-dalu ffïoedd a godwyd a oedd uwchlaw'r terfyn, yna rydym o'r farn y dylai CCAUC allu **rhoi hysbysiad y bydd yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd nesaf y darparwr**.

5.16 Os bydd darparwr a reoleiddir yn **methu'n barhaus** â chydymffurfio â'r terfynau ffïoedd, rydym o'r farn y dylai CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, allu **tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd y darparwr hwnnw yn ystod oes y cynllun.** Bydd tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn golygu y bydd darparwr a reoleiddir yn colli ei statws rheoleiddiedig. Rydym o'r farn mai mater i CCAUC, yn y pen draw, yw penderfynu beth yn union a olygir wrth 'fethiant parhaus'. Fodd bynnag, gallai fod yn sefyllfa lle mae darparwr a reoleiddir yn methu â chadw o fewn y terfynau a bennir yn ei gynllun ffïoedd ar fwy nag un achlysur yn ystod oes y cynllun hwnnw. Gallai hefyd fod yn sefyllfa lle mae darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â'r terfynau ffïoedd yn ei gynllun ffïoedd, ac yna'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir wedyn i'r darparwr hwnnw gan CCAUC ynghylch y methiant cychwynnol.

5.17 Rydym o'r farn, pan fydd CCAUC yn penderfynu y dylid tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd darparwr a reoleiddir ar sail methiant y darparwr hwnnw i gydymffurfio â therfynau ffïoedd, y dylai CCAUC allu rhoi gwybod i'r darparwr hwnnw y bydd yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd ar gyfer y darparwr hwnnw am gyfnod penodedig.

5.18 Mae Ffigur 6 yn rhoi crynodeb o'r gwahaniaethau rhwng y system bresennol o drefniadau rheoli ffïoedd a'r trefniadau diwygiedig arfaethedig.

*Ffig 6 Crynodeb o'r trefniadau rheoli ffïoedd*

| Y system bresennol | Y fframwaith rheoleiddio arfaethedig |
|---|---|
| • Swm y ffi sylfaenol: £4,000 ar hyn o bryd<br>• Swm y ffi uwch: £9,000 ar hyn o bryd | • Un cap ar y ffi –£9,000 fel ar hyn o bryd |
| Gall CCAUC weinyddu cosbau ariannol yn achos sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio â'r terfyn perthnasol o ran ffïoedd dysgu drwy adfachu grant a dalwyd neu ddal grant a ddyfarnwyd yn ôl. | Dim sancsiwn cyfatebol oherwydd newidiadau yn nhrefniadau cyllid addysg uwch. |
| Dim sancsiwn cyfatebol | Gall CCAUC roi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr a reoleiddir:<br>o leihau'r ffi i'r terfyn penodol a nodir yn y cynllun ffïoedd a/neu<br>o ad-dalu ffïoedd dysgu a dalwyd a oedd yn uwch na'r terfyn ffïoedd.<br>Bydd modd gorfodi'r cyfarwyddyd drwy waharddeb. |
| Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffïoedd penodol a nodir yn ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd. | Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffïoedd penodol a nodir yn ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd (gall CCAUC wneud hynny hyd yn oed lle mae wedi rhoi cyfarwyddyd i ddarparwr a reoleiddir yn gofyn iddo gydymffurfio â'r terfyn ffïoedd perthnasol). |
| Dim sancsiwn cyfatebol | Gall CCAUC ddirymu cynllun ffïoedd a gymeradwywyd yn ystod oes y cynllun os bydd CCAUC o'r farn bod darparwr a reoleiddir wedi methu'n barhaus â chydymffurfio â'r terfynau ffïoedd. |
| Dim gofyniad cyfatebol | Wrth weithredu unrhyw un o'r sancsiynau uchod, bydd yn ofynnol i CCAUC: anfon llythyr at y darparwr a reoleiddir yn nodi'n benodol y camau a gymerir a rhesymau CCAUC dros eu cymryd; anfon copi o'r llythyr hwnnw at Weinidogion Cymru; a'i gyhoeddi er mwyn sicrhau bod manylion y sancsiynau a weithredir ar gael i'r partïon perthnasol. |

5.19 Gallai sancsiynau sy'n tynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd yn ystod oes y cynllun neu’n gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd arwain at ganlyniadau difrifol i sefydliadau a'u myfyrwyr. Rydym felly yn cynnig cyflwyno gweithdrefnau i'w hamddiffyn fel a ganlyn:

- **mesurau pontio** i ofalu bod myfyrwyr sydd wedi dechrau eu cyrsiau gyda darparwr a reoleiddir yn gallu parhau i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu hastudiaethau;
- cyn rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas â ffïoedd sydd uwchlaw'r terfyn, y dylai fod yn ofynnol i CCAUC **roi rhybudd** sy'n amlinellu'r cyfarwyddyd arfaethedig, y rhesymau pam mae CCAUC yn bwriadu ei roi, a'r cyfnod pryd y gall y darparwr a reoleiddir ymateb drwy wneud sylwadau am fwriad CCAUC.

5.20 Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i CCAUC, cyn bwrw ymlaen gyda chyfarwyddyd, **roi sylw i unrhyw sylwadau** a ddaw i law gan y darparwr a reoleiddir. Fodd bynnag, os bydd CCAUC o'r farn bod yn dal i fod angen cymryd camau, yna bydd CCAUC yn gallu rhoi hysbysiad o'r cyfarwyddyd gan nodi'r canlynol:

- o y cyfarwyddyd penodol y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef;
- o esboniad ynghylch pam mae'r cyfarwyddyd wedi'i roi;
- o unrhyw wybodaeth ychwanegol a argymhellir gan Weinidogion Cymru.

5.21 Ar hyn o bryd, gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd a gyflwynir, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol, neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd am gyfnod penodedig. Rydym yn cynnig ehangu'r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad CCAUC, yn yr amgylchiadau canlynol, yn cael ei ystyried yn y lle cyntaf yn benderfyniad amodol:

- penderfyniad i roi cyfarwyddyd mewn perthynas â chydymffurfio â therfyn ffïoedd;
- penderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd ar sail methiant parhaus darparwr a reoleiddir i gydymffurfio â therfynau ffïoedd.

O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu ddarparwr arall perthnasol allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.

5.22 Rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth i CCAUC allu rhoi canllawiau i sefydliadau a darparwyr eraill ynghylch y camau i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, a'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a reoleiddir roi sylw dyledus i ganllawiau CCAUC.

## Monitro a gorfodi cynlluniau ffïoedd

5.23 Rydym o'r farn y byddai rôl CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, o ran monitro cynlluniau ffïoedd a threfniadau mynediad teg yn cael ei chryfhau drwy ei gwneud yn bosibl i CCAUC allu **gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd,** yn unigol ac yn gyffredinol ar lefel y sector, a gallu defnyddio'r gwerthusiadau hyn er mwyn datblygu canllawiau arfer da o ran gweithgarwch a buddsoddi mewn perthynas â chynlluniau ffïoedd. Er mwyn i CCAUC asesu effeithiolrwydd y gweithgarwch a'r buddsoddi i helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch, bydd angen gwybodaeth ar CCAUC am yr hyn y mae gweithgarwch a buddsoddi o'r fath wedi'i gyflawni. Gallai hyn gymryd nifer o flynyddoedd, ac efallai y bydd cryn amser yn mynd heibio cyn i rai elfennau ddod yn amlwg. Rydym o'r farn y bydd angen i CCAUC fonitro'r hyn y mae gweithgarwch a buddsoddi o'r fath yn ei gyflawni dros amser er mwyn asesu ei effeithiolrwydd a'r cynnydd cyffredinol a wneir o gyflawni amcanion cynlluniau ffïoedd.

5.24 Mewn cydgysylltiad â'r pŵer arfaethedig i CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffïoedd, rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth i **CCAUC allu comisiynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth a gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi** i helpu i werthuso'r hyn y mae cynlluniau ffïoedd yn ei gyflawni. Y bwriad yw bod CCAUC yn defnyddio casgliadau gwerthusiadau o'r fath fel sail i ganllawiau arfer da ynghylch y gweithgarwch a'r buddsoddi mwyaf effeithiol o ran cynlluniau ffïoedd, gyda'r nod o wella'r hyn y mae cynlluniau ffïoedd yn ei gyflawni. Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a reoleiddir roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddir gan CCAUC[15].

5.25 Y prif sancsiwn sydd ar gael i CCAUC ar hyn o bryd, yn absenoldeb amodau ynghlwm wrth gyllid grant rheolaidd, yw'r pŵer i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd. Mae hwn yn sancsiwn sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol i ddarparwyr a'u myfyrwyr. Rydym o'r farn y dylid ond gweithredu'r sancsiwn hwn ar gyfer yr achosion gwaethaf o fethu â chydymffurfio â therfynau ffïoedd neu ddarpariaethau cynllun a gymeradwywyd. Yn y dyfodol, mewn sefyllfaoedd lle mae darparwr a reoleiddir wedi gwneud cynnydd o ran ymrwymiadau ei gynllun ffïoedd ond nad yw wedi cyflawni gofynion llawn ei gynllun a gymeradwywyd, rydym o'r farn y dylai **sancsiynau eraill posibl** fod ar gael i CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, gyda'r nod o annog darparwr i gydymffurfio â gofynion cynllun ffïoedd heb iddo golli statws ei gynllun fel un a gymeradwywyd.

5.26 Os bydd CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd, ond nad yw'r methiant, ym marn CCAUC, yn ddigon difrifol iddo wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd, yna rydym yn cynnig y dylai CCAUC allu **rhoi cyfarwyddyd i'r darparwr a reoleiddir wario swm penodedig o'i incwm ffïoedd ar faterion mynediad a gweithgareddau i godi pontydd.**

---

[15] Ar hyn o bryd, gall CCAUC roi cyngor i sefydliadau am arferion da o ran hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad i addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch (adran 40A o Ddeddf Addysg Uwch 2004).

Rydym o'r farn y dylid cyfyngu cyfarwyddyd o'r fath i weithgareddau sy'n hybu'r amcanion mewn cynlluniau ffïoedd sy'n ymwneud â mynediad teg er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r premiwm ehangu mynediad presennol o dan drefniadau cyllid diwygiedig CCAUC[16].

5.27 Gan mai dim ond ers y flwyddyn academaidd 2012/13 y mae cynlluniau ffïoedd wedi bod yn ofyniad statudol yng Nghymru i sefydliadau sydd â chyrsiau addysg uwch perthnasol, nid oes digon o dystiolaeth gennym eto i werthuso eu heffaith. Nid ydym felly yn bwriadu gwneud newidiadau i amcanion y cynlluniau ffïoedd yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Fodd bynnag, fel rhan o'r system reoleiddio ddiwygiedig, bydd angen i'r ddeddfwriaeth arfaethedig wneud darpariaeth ar gyfer y ffordd y caiff cynlluniau ffïoedd eu gorfodi.

5.28 Un o'r prif newidiadau a gynigir i'r trefniadau presennol yw cael gwared â'r swm ffïoedd sylfaenol, a'r gofyniad i bob sefydliad a darparwr arall sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr feddu ar gynllun ffïoedd a gymeradwywyd, beth bynnag yw'r ffi y maent am ei godi. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol, yn y dyfodol, i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am godi ffïoedd sy'n llai na £4,000 y flwyddyn, sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr, feddu ar gynllun ffïoedd a gymeradwywyd a chydymffurfio â darpariaethau'r cynllun hwnnw er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi.

5.29 Yng ngoleuni'r amrywiaeth ehangach o lefelau ffïoedd y bydd gofynion cynlluniau ffïoedd y system ddiwygiedig yn berthnasol iddynt, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i CCAUC fod yn **gymesur** wrth gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffïoedd fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, rydym yn cynnig, er y dylai pob sefydliad a darparwr arall sy'n gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffïoedd orfod cyflawni'r un gofynion craidd o ran cynnwys eu cynlluniau, y dylai fod yn ofynnol hefyd i'r rheini sydd am godi ffïoedd **sydd uwchlaw swm penodedig (y swm 'trothwy')** amlinellu yn eu cynllun ffïoedd gyfran yr incwm ffïoedd sydd uwchlaw'r 'trothwy' y maent yn bwriadu ei defnyddio i hyrwyddo amcanion y cynllun ffïoedd.
- Yn ail, y dylid rhoi dyletswydd ar CCAUC i roi ystyriaeth i **lefel arfaethedig y ffi** a amlinellir yng nghynlluniau ffïoedd ymgeiswyr wrth ystyried cynnwys y cynlluniau hynny. Bydd hyn yn golygu, wrth ystyried cymeradwyo cynlluniau ffïoedd, y bydd angen i CCAUC ystyried a yw swm yr incwm ffïoedd penodol sydd uwchlaw'r 'trothwy' a nodir gan ymgeiswyr yn eu cynlluniau ffïoedd yn ddigonol.

[16] Cylchlythyr W13/09HE, HEFCW's Funding Allocations 2013/14 Ebrill 2013. http://www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars.aspx

5.30 Nod y cynigion hyn yw sicrhau bod dull cymesur yn cael ei fabwysiadu mewn perthynas â lefel y ffi a godir a'i fod yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y ffïoedd a gwmpesir gan y fframwaith rheoleiddio newydd. Rydym yn cynnig y dylai'r swm 'trothwy' gael ei bennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, rydym o'r farn y dylai'r swm 'trothwy' fod yn rhyw £6,000. Mae hyn yn uwch na'r swm sylfaenol cyfredol o £4,000 - os yw lefel ffïoedd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yn uwch na hyn, mae'n rhaid bod ganddynt gynllun a gymeradwywyd. Wrth gynnig £6,000 fel swm 'trothwy', ein nod yw cydbwyso'r gofynion presennol sydd ar sefydliadau a gyllidir gan CCAUC â'r ffaith ein bod am wneud cynlluniau ffïoedd yn ofyniad gan bob sefydliad a darparwr arall sydd efallai am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr.

## Cyfarwyddyd gwario

5.31 Yn unol â'r dull cymesur o wario ar amcanion cynlluniau ffïoedd a ddisgrifir uchod, rydym hefyd yn cynnig y dylai CCAUC allu rhoi cyfarwyddyd i ddarparwr a reoleiddir wario swm o'i incwm ffïoedd sydd uwchlaw'r trothwy ar faterion mynediad a gweithgarwch codi pontydd, lle mae CCAUC o'r farn nad yw darparwr a reoleiddir wedi cydymffurfio ag amodau cyffredinol ei gynllun ffïoedd. Rydym yn cynnig y byddai'r cyfarwyddyd gwario newydd hwn yn sancsiwn ychwanegol ac y byddai'n gweithio fel y nodir isod.

5.32 Os bydd CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir sy'n codi ffïoedd uwchlaw'r swm 'trothwy' wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd, yna gall CCAUC roi cyfarwyddyd i'r darparwr a reoleiddir, yn ei gwneud yn ofynnol iddo wario swm penodedig o'i incwm ffïoedd sy'n uwch na'r swm trothwy ar faterion mynediad a gweithgarwch codi pontydd. Rydym yn cynnig na ddylai'r swm a nodir yn y cyfarwyddyd gwario fod yn uwch na swm y gwariant y cytunodd CCAUC arno mewn cynllun a gymeradwywyd.

5.33 Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i CCAUC roi rhybudd i sefydliad neu ddarparwr yn nodi ei fwriad i roi cyfarwyddyd gwario i'r sefydliad/darparwr hwnnw. Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth i ddarparwyr a reoleiddir a allai dderbyn rhybudd o'r fath gael gwneud sylwadau yn erbyn y cyfarwyddyd.

## Gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd

5.34 Yn ogystal, bydd y sancsiwn presennol sydd ar gael i CCAUC i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben (lle mae sefydliad neu ddarparwr wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd) yn dal ar gael i CCAUC. Rydym yn rhagweld y dylai'r sancsiwn hwn barhau i fod yn agored i CCAUC, p'un a yw wedi rhoi cyfarwyddyd gwario i ddarparwr a reoleiddir ai peidio.

## Tynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd sy'n weithredol

5.35 Os bydd darparwr a reoleiddir yn methu'n barhaus â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd, rydym o'r farn y dylai CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd y darparwr hwnnw yn ystod oes y cynllun. Bydd tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn golygu y bydd darparwr a reoleiddir yn colli'r statws rheoleiddiedig hwnnw. Rydym o'r farn mai mater i CCAUC, yn y pen draw, yw penderfynu beth yn union a olygir wrth 'fethiant parhaus' at y dibenion hyn, ond gallai fod yn sefyllfa lle mae darparwr a reoleiddir yn methu â chyflawni darpariaethau cyffredinol ei gynllun ar fwy nag un achlysur yn ystod oes y cynllun hwnnw. Gallai hefyd fod yn sefyllfa lle mae darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd, ac yna'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd gwario a roddir wedyn i'r darparwr hwnnw gan CCAUC ynghylch y methiant cychwynnol.

5.36 Rydym o'r farn, pan fydd CCAUC yn penderfynu y dylid tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd darparwr a reoleiddir ar sail methiant y darparwr hwnnw i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun, y dylai CCAUC hefyd allu rhoi gwybod i'r darparwr y bydd yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd ar gyfer y darparwr hwnnw am gyfnod penodedig.

## Gweithredu sancsiynau

5.37 Rydym yn cynnig y dylid defnyddio sancsiynau penodol yn ôl disgresiwn CCAUC ar sail amgylchiadau penodol y diffyg cydymffurfio. Byddem yn disgwyl i CCAUC roi ystyriaeth i p'un a oes ymdrechion wedi'u gwneud gan ddarparwr a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion cynllun a gymeradwywyd neu p'un a yw darparwr o'r fath wedi methu'n barhaus â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad penodol. I'r perwyl hwn, ac mewn perthynas â phŵer CCAUC i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw cynllun presennol i ben, rydym yn cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn caniatáu i CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, roi ystyriaeth i amgylchiadau arbennig pan fydd yn ystyried a ddylid gweithredu'r pŵer hwnnw ai peidio. Rydym yn cynnig, os, o ganlyniad i wybodaeth a ddarperir gan ddarparwr a reoleiddir, bydd CCAUC yn bendant bod y darparwr wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun, na ddylid ystyried ei fod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun. Mae Ffigur 7 yn rhoi crynodeb o'r gwahaniaethau rhwng y system bresennol a'r trefniadau diwygiedig arfaethedig.

5.38 Fel yn achos y trefniadau i reoli lefelau ffïoedd, gallai sancsiynau sy'n tynnu'n ôl gymeradwyaeth yr awdurdod perthnasol i gynllun ffïoedd neu'n gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd arwain at ganlyniadau difrifol i sefydliadau a darparwyr eraill a'u myfyrwyr. Rydym felly o'r farn y dylai'r trefniadau arfaethedig gynnwys **mesurau pontio** i ofalu bod myfyrwyr sydd wedi dechrau eu cyrsiau addysg uwch gyda darparwr a reoleiddir yn gallu parhau i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu hastudiaethau.

5.39 Ar hyn o bryd, gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd a gyflwynir, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol, neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd am gyfnod penodedig. Rydym yn cynnig ehangu'r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad CCAUC, yn yr amgylchiadau canlynol, yn cael ei ystyried yn y lle cyntaf yn benderfyniad amodol:

- penderfyniad i roi cyfarwyddyd gwario;
- penderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd ar sail methiant parhaus darparwr a reoleiddir i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd.

O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu ddarparwr arall perthnasol allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.

5.40 Yn olaf, mae canllawiau cyfredol Gweinidogion Cymru ar gyfer CCAUC ynghylch rôl y Cyngor o ran monitro a gorfodi cynlluniau ffïoedd yn awgrymu y dylai CCAUC barhau i gadw mewn cof yr angen i fod yn dryloyw, yn atebol, yn gyson a thargedu'n briodol wrth ystyried y gweithgareddau a'r targedau a amlinellir yng nghynlluniau ffïoedd sefydliadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan CCAUC bŵer statudol i gyhoeddi asesiad o unrhyw sefydliad nad yw, ym marn y Cyngor, wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn ei gynllun ffïoedd. Rydym o'r farn y byddai darparu pŵer o'r fath, i'w ddefnyddio mewn cydgysylltiad â sancsiynau, yn gwneud rôl CCAUC o ran monitro a gorfodi cynlluniau ffïoedd yn fwy tryloyw. Byddai hyn yn annog darparwyr a reoleiddir i fynd ati'n ddi-oed i gywiro unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio a nodir gan CCAUC. Yn ogystal, byddai'r gofyniad i gyhoeddi unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofynion cynlluniau ffïoedd yn codi proffil y broses o fonitro cynlluniau ffïoedd a'r defnydd cysylltiedig o bwerau ymyrryd CCAUC.

5.41 Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i CCAUC, yn y dyfodol ac wrth arfer unrhyw bwerau i reoli ffïoedd neu i weithredu sancsiynau ar gynlluniau ffïoedd, anfon llythyr at y darparwr a reoleiddir yn nodi'n benodol y camau a gymerir ac yn amlinellu rhesymau CCAUC dros eu cymryd. Yn ogystal, rydym am ei gwneud yn ofynnol i CCAUC anfon copi o lythyrau o'r fath at Weinidogion Cymru a dylai fod rheidrwydd arno i'w cyhoeddi er mwyn sicrhau bod manylion y sancsiynau a weithredir ar gael i'r partïon perthnasol.

*Ffig 7 Crynodeb o'r trefniadau i orfodi cynlluniau ffïoedd*

| Y system bresennol | Y fframwaith rheoleiddio arfaethedig |
|---|---|
| Mae'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC sy'n codi ffïoedd sydd uwchlaw'r swm sylfaenol (£4,000 ar hyn o bryd) feddu ar gynllun ffïoedd a gymeradwywyd. | Bydd yn ofynnol i bob sefydliad a darparwr arall yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig wneud cais i CCAUC gymeradwyo eu cynllun ffïoedd. Rhaid i gyrff allu dangos bod ganddynt statws elusennol a chynnal y statws hwnnw tra pery'r cynllun. |
| Gall CCAUC weinyddu cosbau ariannol yn achos sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau a gymeradwywyd drwy adfachu grant a dalwyd neu ddal grant a ddyfarnwyd yn ôl. | Dim sancsiwn cyfatebol oherwydd newidiadau yn nhrefniadau cyllid addysg uwch. |
| Dim sancsiwn cyfatebol | Gall CCAUC roi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr a reoleiddir, sy'n methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd, wario swm penodedig o'i incwm ffïoedd ar weithgareddau sy'n cefnogi cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch. |
| Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd.<br><br>Dim darpariaeth ar gyfer amgylchiadau arbennig ar hyn o bryd | Gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd (gall CCAUC wneud hynny hyd yn oed lle mae wedi rhoi cyfarwyddyd gwario i ddarparwr a reoleiddir).<br><br>Os bydd darparwr a reoleiddir wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd, yna ni ddylid ystyried ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny at ddibenion cymeradwyo cynllun newydd. |
| Dim sancsiwn cyfatebol | Gall CCAUC ddirymu cynllun ffïoedd a gymeradwywyd yn ystod oes y cynllun os bydd CCAUC o'r farn bod darparwr a reoleiddir wedi methu'n barhaus â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd. |
| Dim gofyniad cyfatebol | Wrth weithredu unrhyw un o'r sancsiynau uchod, bydd yn ofynnol i CCAUC: anfon llythyr at y darparwr a reoleiddir yn nodi'n benodol y camau a gymerir a rhesymau CCAUC dros eu cymryd; anfon copi o'r llythyr at Weinidogion Cymru; a'i gyhoeddi er mwyn sicrhau bod manylion y sancsiynau a weithredir ar gael i'r partïon perthnasol. |

## Cwestiynau ymgynghori: rheolaethau ar ffïoedd a mynediad teg

1. **A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai CCAUC, mewn achosion o fethiant parhaus i gydymffurfio â'r terfynau ffïoedd, allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth mewn perthynas â chynllun a gymeradwywyd?**
2. **A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu rôl CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, er mwyn iddo allu gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffïoedd yn unigol ac ar draws sector addysg uwch Cymru?**
3. **A ydych yn cytuno y dylid amddiffyn myfyrwyr sydd wedi dechrau eu hastudiaethau gyda darparwr a reoleiddir sydd wedyn yn colli'r gymeradwyaeth i'w gynllun ffïoedd neu y gwrthodir cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd ar ei gyfer?**
4. **A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai'r un gofynion craidd fod yn berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun a gymeradwywyd?**
5. **A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i lefel arfaethedig y ffi wrth benderfynu a yw ymrwymiadau cynlluniau ffïoedd yn ddigonol?**
6. **A ydych yn cytuno â'r swm arfaethedig o £6,000 fel ffi 'trothwy'?**
7. **A ydych yn cytuno ag amrywiaeth y sancsiynau arfaethedig a fydd ar gael i CCAUC ac y dylai CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, allu eu gweithredu yn ôl ei ddisgresiwn?**
8. **Y bwriad yw, pan fydd CCAUC (fel yr awdurdod perthnasol) yn penderfynu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd, y gall y sefydliad neu'r darparwr dan sylw wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw i banel/person annibynnol. A ydych o'r farn bod y weithdrefn adolygu hon yn ddigonol neu a oes angen trefniadau adolygu neu apelio ychwanegol? Os felly, nodwch sut drefniadau fyddai'n briodol.**
9. **A ddylai darparwyr a reoleiddir (hy y rheini sydd â chynllun ffïoedd a gymeradwywyd) y caiff eu cyrsiau addysg uwch eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr allu eithrio rhai cyrsiau rhag cael eu dynodi'n awtomatig a'r gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynlluniau ffïoedd?**

# 6. Asesu ansawdd

## Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid

6.1 O ran ei gyfrifoldebau ariannu, mae'n ddyletswydd statudol ar CCAUC i sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau neu'n ystyried gwneud hynny, ac i sefydlu pwyllgor asesu ansawdd y mae mwyafrif ei aelodau o'r tu allan i'r Cyngor. Mae CCAUC wedi sefydlu'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, ac ar hyn o bryd mae'n cyflawni ei ddyletswyddau asesu drwy gytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyngor a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

6.2 Mae'n hanfodol asesu ansawdd addysg uwch er mwyn sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal a bod myfyrwyr yn cael profiad dysgu o ansawdd uchel. Mae trefniadau presennol CCAUC ar gyfer gorfodi safonau ansawdd yn sicrhau bod modd nodi diffygion mewn ansawdd yn gyflym a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw er mwyn osgoi amharu ar ddysgwyr a niweidio enw da sefydliadau unigol a sector addysg uwch Cymru'n gyffredinol.

6.3 Mae CCAUC wedi cyflwyno gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion o ansawdd anfoddhaol[17] yn y sefydliadau hynny y mae'n eu hariannu ar hyn o bryd. Mae'r 'weithdrefn ar gyfer ansawdd anfoddhaol' yn amlinellu'r camau y bydd CCAUC yn eu cymryd i ymdrin ag ansawdd anfoddhaol prosesau ar gyfer rheoli safon academaidd dyfarniadau a/neu ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr, neu os yw'n ystyried bod sefydliad yn wynebu risg uwch o ran ansawdd ei ddarpariaeth. Y prif sancsiwn sydd ar gael i CCAUC ar hyn o bryd yw cyfyngu ar fynediad sefydliad i ffrydiau ariannu CCAUC. Nod y sancsiwn hwn yw osgoi buddsoddi pellach mewn sefydliadau lle mae ansawdd yr addysgu a/neu'r llywodraethu yn anfoddhaol.

6.4 Mae dyletswydd statudol CCAUC i sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau neu'n ystyried gwneud hynny, yn dibynnu ar gymorth ariannol. O ystyried bod llai o arian wedi'i ddyrannu gan CCAUC ar gyfer 2012/13 ymlaen, mae'n amheus a fydd dyletswydd bresennol CCAUC i asesu ansawdd addysg yn parhau'n addas i'r diben. Gallai hyn arwain at ganlyniadau negyddol i ddysgwyr a sefydliadau a niweidio enw da sector addysg uwch Cymru. Rydym o'r farn y bydd angen sancsiynau eraill posibl ar CCAUC i'w defnyddio mewn achosion o ansawdd anfoddhaol.

---

[17] Cylchlythyr CCAUC 12/16 AU: Unsatisfactory Quality Procedures: http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/teaching_quality_assurance.aspx

## Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd

6.5 O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd angen diwygio dyletswydd bresennol CCAUC i sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yn y sefydliadau y mae'n eu hariannu neu'n bwriadu eu hariannu. Cynigir bod y ddyletswydd ddiwygiedig yn rhwymo CCAUC i sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd cyrsiau addysg uwch a **ddarperir gan ddarparwyr a reoleiddir,** hy y darparwyr hynny yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo.

## Cwmpas y ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei hasesu

6.6 Bwriedir i ddyletswydd asesu ddiwygiedig CCAUC gynnwys **pob cwrs addysg uwch sydd o fewn cwmpas atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988**[18] ac sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr a reoleiddir. Dyma nhw:

(a) cwrs o hyfforddiant pellach i athrawon neu weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol;

(b) cwrs ôl-radd (gan gynnwys cwrs gradd uwch);

(c) cwrs gradd gyntaf;

(d) cwrs ar gyfer y Diploma Addysg Uwch;

(e) cwrs ar gyfer y Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Cenedlaethol Uwch y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr, neu'r Diploma mewn Astudiaethau Rheoli;

(f) cwrs ar gyfer y Dystysgrif Addysg;

(g) cwrs i baratoi ar gyfer arholiad proffesiynol ar lefel uwch;

(h) cwrs sy'n darparu addysg ar lefel uwch (boed i baratoi at arholiad neu beidio).

Mae'r ystod o gyrsiau sy'n dod o fewn cwmpas atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn ehangach na'r rheini sy'n dod o fewn cwmpas atodlen 2 o'r prif reoliadau ar gymorth i fyfyrwyr addysg uwch[19], hynny yw cyrsiau a allai gael eu dynodi at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr. O ystyried bod cyllid cyhoeddus, ee grantiau ymchwil CCAUC sy'n gysylltiedig ag ansawdd ac arian gan Gynghorau Ymchwil y DU, yn cefnogi ystod o raddau meistr a graddau ymchwil, rydym o'r farn ei bod o fudd i'r cyhoedd bod ansawdd yr holl gyrsiau sy'n dod o dan atodlen 6 uchod,

[18] Atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1998 - Cyrsiau Addysg Uwch. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/40/schedule/6

[19] Ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 (OS 2011/886) (Cy.130), fel y'u diwygiwyd.

os cânt eu darparu gan ddarparwr a reoleiddir, yn cael ei asesu fel rhan o ddyletswydd asesu ansawdd CCAUC.

6.7 Fel ar hyn o bryd, mater i CCAUC o hyd fydd penderfynu sut i gyflawni ei ddyletswydd ddiwygiedig i asesu ansawdd, boed hynny drwy'r trefniadau presennol gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu drefniant arall. Ni ddylai'r diwygiadau i ddyletswydd CCAUC newid yn sylweddol y gofynion sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i sefydliadau sydd wedi cael grantiau rheolaidd gan CCAUC. Fodd bynnag, yn sgil y dull gweithredu diwygiedig ar gyfer dynodi cyrsiau, bydd gan bob sefydliad a darparwr addysg uwch arall yng Nghymru y dewis o hyn ymlaen i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffïoedd neu beidio er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth i fyfyrwyr. Bydd y rheini sydd â chynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo yn gorfod bodloni gofynion asesu ansawdd CCAUC.

6.8 Yn ogystal, rydym yn cynnig bod y gofyniad i CCAUC sefydlu a chynnal pwyllgor, er mwyn cynghori'r Cyngor ar gyflawni ei ddyletswydd o ran asesu ansawdd, yn parhau. Rydym yn rhagweld y bydd rôl y pwyllgor yn ganolog i waith CCAUC dros y blynyddoedd sydd i ddod wrth i ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru ac enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru barhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Cynigir bod y rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor yn parhau'n annibynnol ar y Cyngor.

## Cydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC

6.9 O hyn ymlaen, ni fydd dyletswydd asesu ansawdd ddiwygiedig CCAUC yn ddibynnol ar gyllid grant rheolaidd i sefydliadau. Felly, bydd angen darparu mecanwaith i CCAUC allu gorfodi cydymffurfiaeth â'r broses asesu ansawdd. O achos hyn, rydym yn bwriadu rhoi hawl i berson sy'n cynnal asesiad ansawdd (ee yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch) gael mynediad i sefydliad neu safle darparwr arall a hawl i archwilio a gwneud copïau o gofnodion (boed yn ysgrifenedig neu'n electronig).

6.10 Rydym yn ystyried y bydd hefyd angen rhoi rheidrwydd ar ddarparwyr a reoleiddir i gydymffurfio â'r trefniadau asesu ansawdd a gyflwynir gan CCAUC a rhoi i CCAUC (neu gynrychiolydd y Cyngor) yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt (o fewn rheswm) mewn cysylltiad â'r broses asesu ansawdd.

6.11 Er bod cydymffurfio â'r gofynion asesu ansawdd yn bwysig i enw da sefydliadau a darparwyr eraill addysg uwch, rydym yn ystyried ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol darparu ffordd o orfodi cydymffurfiaeth â hawl CCAUC (neu gynrychiolwyr CCAUC) i gael mynediad i safleoedd, cofnodion a dogfennau. Yn hytrach na mabwysiadu dull lle byddai'n drosedd methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn (yn debyg i'r drefn archwilio statudol sy'n berthnasol i ysgolion a'r sector addysg bellach) roeddem o'r farn y byddai'n fwy addas galluogi CCAUC **i roi cyfarwyddyd i sefydliad neu ddarparwr arall a fyddai'n eu gorfodi i ganiatáu mynediad i'w safleoedd, cofnodion a dogfennau** at ddibenion dyletswydd asesu ansawdd y Cyngor.

6.12 Rydym hefyd yn cynnig y dylai cyfarwyddyd o'r fath gael ei orfodi drwy waharddeb. Byddai'r dull hwn yn sicrhau nad yw darparwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r drefn yn cyflawni trosedd ac yn rhoi pŵer digonol i CCAUC barhau i gyflawni ei ddyletswydd pan fo sefydliad neu ddarparwr yn gwrthod rhoi mynediad i'w safle, cofnodion a dogfennau.

## Ansawdd anfoddhaol – ymyrryd a sancsiynau

6.13 Os yw CCAUC yn penderfynu bod ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwr a reoleiddir yn annigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rheini sy'n dilyn y cwrs, bydd angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater mor gyflym â phosibl er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr ac enw da sector addysg uwch Cymru.

6.14 Rydym yn ystyried y dylai CCAUC barhau i gyhoeddi canllawiau ar ffurf cylchlythyrau ynghylch ansawdd anfoddhaol a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion o ansawdd anfoddhaol. Mae gan CCAUC sawl ffordd o ymdrin ag achosion o'r fath ar hyn o bryd, a chaiff y rhain eu hamlinellu yng nghylchlythyr CCAUC ar y Weithdrefn ar gyfer Ansawdd Anfoddhaol[20], gan gynnwys:

- trefnu i dîm cymorth helpu'r sefydliad dan sylw fynd i'r afael â'r mater(ion) ansawdd;
- yn achos sefydliadau addysg uwch - ymgymryd ag adolygiad sicrwydd arbennig i asesu a oes materion ehangach i fynd i'r afael â nhw yn ymwneud â rheolaeth a llywodraethu;
- yn achos sefydliadau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol[21] - cysylltu â Llywodraeth Cymru fel y prif gorff ariannu, a gydag Estyn os yn briodol, i drafod y camau i'w cymryd.

Rydym yn cynnig y dylai CCAUC allu parhau i gymryd camau tebyg i'r uchod, er na fyddant yn cael eu cymryd mewn cysylltiad â thelerau ac amodau cyllid CCAUC o hyn ymlaen, a byddant yn berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo (hy darparwyr a reoleiddir).

6.15 Felly, rydym yn cynnig cyflwyno swyddogaethau newydd i CCAUC yn ymwneud â'r camau y gall eu cymryd i fynd i'r afael ag ansawdd anfoddhaol. Rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor, os yw'n bendant bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwr a reoleiddir yn anfoddhaol, yn gwneud rhai neu bob un o'r canlynol:

- cyflwyno cynllun gweithredu yn dilyn asesiad ansawdd;
- cymryd camau ychwanegol os yw sefydliad yn methu â bodloni'r gofynion ansawdd, ee trefnu tîm cymorth, cynnal adolygiadau sicrwydd arbennig ychwanegol;

[20] Cylchlythyr CCAUC 12/16 AU: Unsatisfactory Quality Procedures.
[21] sefydliadau addysg bellach sy'n cael cyllid gan CCAUC.

- mynychu ac annerch cyfarfodydd corff llywodraethu/bwrdd rheoli sefydliad neu ddarparwr arall ynghylch unrhyw fater sy'n codi o asesiad ansawdd.

Rydym yn cynnig y dylai fod gan CCAUC ddisgresiwn i benderfynu pa ymyrraeth sy'n fwyaf priodol ar sail y dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag achosion unigol o ansawdd anfoddhaol.

6.16 Er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr, Gweinidogion Cymru a threthdalwyr, bydd angen sicrhau bod **hawl gan CCAUC i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd darparwr a reoleiddir** os yw ansawdd y cyrsiau a ddarperir ganddo'n parhau'n anfoddhaol yn dilyn camau gweithredu CCAUC i fynd i'r afael â'r mater, neu fod CCAUC o'r farn bod y diffygion ansawdd mor ddifrifol bod risg annerbyniol i enw da'r ddarpariaeth a gallu'r myfyrwyr i gwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus.

6.17 Er y byddai goblygiadau pellgyrhaeddol i weithredu’r sancsiwn o **dynnu'n ôl gymeradwyaeth** i gynllun ffïoedd, rydym o'r farn y byddai'n diogelu cyfran sylweddol o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr a reoleiddir, a hefyd buddiannau'r dysgwyr ac enw da sector addysg uwch Cymru.

6.18 Ar hyn o bryd gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd arfaethedig, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd am gyfnod penodedig. Rydym yn cynnig ehangu’r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd am fod darparwr a reoleiddir wedi methu â darparu addysg o ansawdd boddhaol, yn cael ei ystyried, yn y lle cyntaf, yn benderfyniad amodol. O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu'r darparwr arall dan sylw allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.

6.19 Fel yn achos penderfyniad i **dynnu'n ôl gymeradwyaeth** i gynllun ffïoedd oherwydd methiant parhaus i gydymffurfio â therfyn ffïoedd neu ddarpariaethau cyffredinol cynllun ffïoedd sydd wedi’i gymeradwyo, rydym o'r farn y dylid **cyflwyno mesurau pontio lle caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl oherwydd safonau anfoddhaol.** Rydym yn cynnig y dylai mesurau o'r fath sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi dechrau eu cyrsiau addysg uwch gyda darparwr a reoleiddir yn gallu parhau i dderbyn cymorth Llywodraeth Cymru i gwblhau eu hastudiaethau.

6.20 Rydym yn disgwyl y bydd CCAUC yn cadw at yr egwyddorion canlynol wrth gyflawni ei swyddogaethau:

- bydd ymyrraeth uniongyrchol ond yn digwydd pan fo angen;
- bydd yr ymyrraeth yn gymesur â'r risg i fyfyrwyr, cyllid cyhoeddus ac enw da sector addysg uwch Cymru;
- bydd y darparwr a reoleiddir a CCAUC yn cytuno ar y camau gweithredu cyn belled ag y bo'n bosibl.

Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau newydd yn 6.15 uchod, a'i gyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau a darparwyr eraill yn llwyr ymwybodol o ddisgwyliadau'r Cyngor.

6.21 Rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth i CCAUC allu dosbarthu canllawiau i ddarparwyr a reoleiddir ar asesu ansawdd, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, bydd yn amlinellu'r camau y bydd angen i ddarparwr a reoleiddir eu cymryd os yw CCAUC yn asesu bod ansawdd yr addysg a ddarperir yn anfoddhaol, ac yn ail bydd yn caniatáu i CCAUC ddosbarthu canllawiau ynghylch cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru.

6.22 Cynigiwn y dylai fod gofyn i CCAUC **gyflwyno adroddiad blynyddol** i **Weinidogion Cymru** ar y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag asesu ansawdd gan gynnwys unrhyw ymyrryd neu gamau gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd y gofyniad hwn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael eu hysbysu am unrhyw achosion o ansawdd anfoddhaol ymhlith darparwyr a reoleiddir lle bu'n rhaid i CCAUC arfer ei bwerau ymyrryd.

6.23 Yn ogystal, rydym yn cynnig gwneud darpariaeth er mwyn i Weinidogion Cymru allu rhoi cyfarwyddyd i CCAUC ar gyflawni ei swyddogaethau asesu ansawdd a pharatoi ei adroddiad blynyddol. Rydym yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori â CCAUC cyn dosbarthu canllawiau o'r fath.

## Cyrsiau breiniol

6.24 Ymhellach i'r cynigion a nodwyd yn adran 4 ar gyfer darpariaeth freiniol, rydym yn cynnig bod gofyn i'r sefydliad neu’r darparwr sy’n breinio’r cwrs addysg uwch (y breiniwr) feddu ar gynllun ffïoedd sydd wedi’i gymeradwyo er mwyn i gyrsiau breiniol fod yn gymwys o ran rheolaethau ar ffïoedd a chael eu dynodi’n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig y bydd angen i'r breiniwr, fel darparwr a reoleiddir, (yn hytrach na’r sefydliad sydd wedi’i freinio), gydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC. Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a fyddai’r dull hwn yn gweithio'n ymarferol ai peidio.

## Cwestiynau ymgynghori: asesu ansawdd

1. **A ydych yn cytuno y dylai dyletswydd CCAUC i wneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr a reoleiddir yng Nghymru gynnwys pob cwrs addysg uwch sy'n dod o fewn cwmpas atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988?**
2. **A ydych yn cytuno â'r cynnig arfaethedig y dylid gwneud darpariaeth i CCAUC allu cyfarwyddo darparwyr a reoleiddir i roi mynediad i'w safleoedd, eu cofnodion a'u dogfennau at ddibenion asesu ansawdd?**
3. **A yw'r camau a nodwyd ym mharagraff 6.15 yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer ymdrin ag achosion o ansawdd anfoddhaol? A oes unrhyw gamau eraill y dylai CCAUC allu eu cymryd yn eich barn chi?**
4. **A ydych yn credu y dylai fod gofyn i'r person neu'r personau sy'n gofyn am fynediad i safle, cofnodion a dogfennau at ddibenion dyletswydd asesu ansawdd CCAUC, ddangos prawf o bwy ydynt ar gais y sefydliad neu'r darparwr arall sy'n cael ei asesu?**
5. **Os yw CCAUC yn dirymu cynllun ffïoedd, a yw'r trefniadau diogelu a nodir ym mharagraff 6.18 yn briodol ac yn ddigonol?**
6. **A ydych yn cytuno â'r cynnig bod gofyn i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar y modd y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd mewn perthynas ag asesu ansawdd?**
7. **A yw'r cynigion ar gyfer darpariaeth freiniol yn ymarferol?**

# 7. Sicrwydd ariannol a llywodraethu

## Y trefniadau presennol a pham mae angen eu newid

7.1 Mae CCAUC yn cynnal gweithgareddau sicrwydd ansawdd mewn perthynas â chyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliadau y mae'n rhoi cymorth ariannol iddynt. Mae'r trefniadau hyn yn darparu mesurau diogelu ar gyfer defnyddio cyllid cyhoeddus ac yn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a Llywodraeth Cymru.

7.2 Caiff trefniadau sicrwydd ansawdd CCAUC eu darparu drwy'r amodau ar gyfer dyraniadau cyllid ac felly maent yn dibynnu ar allu CCAUC i barhau i ddarparu cyllid i sefydliadau. Ar hyn o bryd, caiff pob sefydliad Femorandwm Ariannol unigol sy'n amlinellu gofynion CCAUC mewn perthynas â'r cyllid a ddyrennir i'r sefydliad a'r trefniadau monitro cysylltiedig. Mae gofyn i swyddog dynodedig pob sefydliad a ariennir yn uniongyrchol lofnodi a dyddio'r Memorandwm Ariannol a'i ddychwelyd i CCAUC. Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r sefydliad a ariennir yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r memorandwm hwn a'r canllawiau cysylltiedig[22].

7.3 Os canfyddir achosion o afreoleidd-dra ariannol neu lywodraethu gwael, mae angen i CCAUC allu ymyrryd a gweithredu sancsiynau priodol sy'n gymesur â difrifoldeb y broblem er mwyn diogelu buddiannau'r dysgwyr ac enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru. Ar hyn o bryd, os canfyddir problemau drwy weithgareddau sicrhau ansawdd CCAUC, gall CCAUC geisio adfachu symiau o gyllid rheolaidd neu wrthod rhyddhau taliadau i sefydliadau yn y dyfodol. Ni fydd modd i CCAUC wneud hyn yn y dyfodol gan y bydd symiau'r cyllid rheolaidd yn llai o lawer.

7.4 Ar hyn o bryd, os canfyddir achosion o gamreoli ariannol neu lywodraethu gwael, gall CCAUC:

- wneud trefniadau gydag uwch-reolwyr y sefydliad i geisio dod i ddeall union natur y problemau, y camau sydd eisoes wedi'u cymryd neu y mae'r sefydliad yn bwriadu eu cymryd ac, yn ôl yr angen, sefydlu tîm cymorth i ymchwilio i'r problemau a ganfuwyd a mynd i'r afael â nhw;
- yn achos sefydliadau addysg uwch - ymgymryd ag adolygiad sicrwydd arbennig i asesu a oes materion ehangach i fynd i'r afael â nhw yn ymwneud â rheolaeth a llywodraethu;
- yn achos sefydliadau addysg bellach - cysylltu â Llywodraeth Cymru fel y prif gorff ariannu, a chael gwybod yn rheolaidd am hynt unrhyw gynllun adfer a gyflwynir.

Bydd angen i CCAUC allu cyflawni'r mathau hyn o gamau yn y dyfodol. O ganlyniad, bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gwneud darpariaeth berthnasol ar gyfer swyddogaethau CCAUC o dan y trefniadau ariannu newydd.

---

[22] Cylchlythyr Cyfarwyddyd CCAUC: W08/36HE – Revised Financial Memorandum and Audit Code of Practice, Tachwedd 2008

7.5 Er mwyn sicrhau bod CCAUC yn gallu darparu sicrwydd ariannol a llywodraethu o ran darparwyr a reoleiddir (y mae eu cyrsiau felly'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru) bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Rydym o'r farn y byddai defnyddio set gyhoeddedig o ofynion ariannol a gofynion llywodraethu corfforaethol yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn ennyn mwy o ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd. Byddai rhoi'r gallu i CCAUC bennu'r gofynion hynny hefyd yn cydnabod ei rôl o ran diogelu buddiannau'r rheini sy'n manteisio ar y sector addysg uwch yng Nghymru neu'n buddsoddi ynddo.

7.6 Felly, cynigiwn ddiwygio'r fframwaith statudol presennol yn ymwneud â swyddogaethau CCAUC er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a reoleiddir gydymffurfio â **Chod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol**.

## Y trefniadau o dan y fframwaith rheoleiddio newydd

7.7 Ein bwriad yw bod trefniadau diwygiedig ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethu corfforaethol yn adeiladu ar swyddogaethau ac arferion presennol CCAUC, lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhai newidiadau o ganlyniad i'r ffaith nad yw swyddogaethau diwygiedig CCAUC bellach yn ddibynnol ar gymhwyso amodau cyllid.

7.8 O dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig, rôl newydd CCAUC mewn perthynas â sefydliadau a darparwyr eraill yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo, fydd sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn cael eu rhedeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r disgwyliadau cyhoeddedig yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol a'u bod yn sefydliadau dibynadwy;
- bod eu systemau cyllid yn effeithiol ac yn effeithlon;
- eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

7.9 Er mwyn rhoi sail statudol i swyddogaeth sicrwydd ariannol a llywodraethu CCAUC, rydym yn cynnig:

- rhoi dyletswydd statudol ar CCAUC i baratoi a chyhoeddi Cod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol;
- ei gwneud yn ofynnol i CCAUC barhau i adolygu'r Cod;
- ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn cyhoeddi'r Cod (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol).

## Cod llywodraethu ariannol a chorfforaethol

7.10 Bydd y Cod Ymarfer Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol newydd yn rhan allweddol o'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig. Bydd y Cod yn berthnasol i unrhyw ddarparwr cyrsiau addysg uwch yng Nghymru sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo (darparwyr a reoleiddir). Rydym o'r farn y dylai fod

gofyn i CCAUC ymgynghori ar ddatblygiad y Cod. Bydd y gofyniad hwn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn ymwybodol o'r cynnwys arfaethedig a bod cyfle iddynt gyfrannu at ddatblygiad y Cod.

7.11 Y Cod fydd yn galluogi CCAUC i osod gofynion ar ddarparwyr a reoleiddir yn ogystal â’i gwneud yn bosibl rhoi canllawiau ynghylch llywodraethu a rheolaeth ariannol y bydd gofyn i ddarparwyr roi ystyriaeth iddynt wrth wneud eu gwaith. Nid ydym yn bwriadu rhagnodi cynnwys manwl y Cod yn y ddeddfwriaeth, ond rydym yn rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i ofynion y Cod gwmpasu'r canlynol:

- sut mae darparwr a reoleiddir yn trefnu ac yn rheoli ei hun, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli ei faterion ariannol (yn y gorffennol ac wrth gynllunio at y dyfodol), sut mae’n paratoi datganiadau ariannol a chyfrifon, a'i gydymffurfiaeth â gofynion archwilio;
- yr amgylchiadau lle mae angen cael caniatâd CCAUC cyn gall darparwr a reoleiddir ymgymryd â mathau penodol o drafodion ariannol a nodir yn y Cod;
- darparu gwybodaeth i CCAUC ynghylch rheolaeth, trefniadaeth a chyflwr ariannol y darparwr a reoleiddir.

7.12 Yng ngoleuni rôl reoleiddio fwy CCAUC, rydym o'r farn y dylai fod yn fater i'r Cyngor ei hun i ddatblygu'r manylion gweithredol ac ymgynghori ar y Cod drafft. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd y Cod ar gyfer gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd, credwn y dylid darparu cam craffu ychwanegol cyn cwblhau'r Cod yn derfynol. Rydym yn ystyried yr opsiynau canlynol:

- y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r Cod drafft, yn rhoi caniatâd i'w gyhoeddi;
- y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r Cod drafft, yn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo;
- y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru heb orfod cael cymeradwyaeth.

7.13 Ar ôl cyhoeddi'r Cod, bydd yn ofynnol i bob darparwr a reoleiddir (hy, y rheini sydd â chynllun ffïoedd sydd wedi’i gymeradwyo) gydymffurfio â gofynion y Cod. Cynigir y dylai'r Cod hefyd gynnwys canllawiau (yn ogystal â gofynion) ar drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol. Credwn y dylai fod gorfodaeth ar ddarparwyr a reoleiddir i roi ystyriaeth i ganllawiau o'r fath. Er mwyn i sefydliad neu ddarparwr arall gadw ei statws fel darparwr a reoleiddir, bydd angen iddo gydymffurfio â gofynion y Cod. Yn unol â'i rôl reoleiddio newydd, rydym felly'n bwriadu rhoi dyletswydd ar CCAUC i ddarparu ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cod. Rydym hefyd yn cynnig rhoi pŵer i CCAUC ymyrryd os yw darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â gofynion y Cod.

## Ymyrryd

7.14 Er mwyn sicrhau bod y darparwyr a reoleiddir yn cydymffurfio â gofynion y Cod, rydym yn cynnig caniatáu i CCAUC:

- roi cyfarwyddyd i ddarparwr a reoleiddir gymryd camau / peidio â chymryd camau, fel y bo'n briodol, i gydymffurfio â gofynion y Cod (os yw CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â gofyniad o'r fath);
- tynnu cymeradwyaeth yn ôl i gynllun ffïoedd sydd wedi'i gymeradwyo os yw'r Cyngor o'r farn bod darparwr a reoleiddir wedi dangos camreolaeth ariannol ddifrifol (a allai gynnwys methiant parhaus i gydymffurfio â gofynion y Cod).

7.15 Byddem yn disgwyl i CCAUC arfer ei bwerau ymyrryd yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- bydd ymyrraeth uniongyrchol ond yn digwydd pan fo angen;
- bydd lefel yr ymyrraeth yn gymesur â'r risg i fyfyrwyr a chyllid cyhoeddus;
- bydd y corff llywodraethu (os oes un) a Phennaeth y sefydliad neu'r darparwr dan sylw yn cytuno ar y camau gweithredu cyn belled ag y bo'n bosibl.

Mae tynnu cymeradwyaeth yn ôl i gynllun ffïoedd yn sancsiwn difrifol a phellgyrhaeddol, a byddem ond yn disgwyl iddo gael ei weithredu lle ceir achos difrifol o gamreoli ariannol. Serch hynny, yng nghyd-destun y drefn newydd ariannu ac o ran cymorth i fyfyrwyr, rydym o'r farn bod sancsiwn o'r fath yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr, trethdalwyr a Llywodraeth Cymru.

7.16 O ran ymyraethau CCAUC, rydym yn cynnig y dylid rhoi mesurau diogelu penodol yn eu lle fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, os yw CCAUC am roi cyfarwyddyd, y bwriad yw bod darparwyr a reoleiddir yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch pam na ddylid rhoi'r cyfarwyddyd hwnnw. Os yw CCAUC yn dal i gredu y dylid rhoi cyfarwyddyd ar ôl adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd, mater i'r Cyngor fydd hynny yn unol â'r Cod cyhoeddedig. Wrth roi cyfarwyddyd, dylai fod yn ofynnol i CCAUC esbonio ei resymau yn ysgrifenedig.
- Yn ail, at ddibenion craffu allanol, cynigir y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn amlinellu sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â sicrwydd ariannol a llywodraethu yn y flwyddyn flaenorol (gan gynnwys unrhyw achosion lle bu'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei bwerau ymyrryd). Y bwriad yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael gwybod am achosion o gamreoli ariannol a sefydliadol. Byddai hyn yn debyg i ddatganiad sicrwydd presennol y Cyngor.

- Yn olaf, rydym yn cynnig ehangu’r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad gan CCAUC i roi cyfarwyddyd, neu benderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd am fod darparwr a reoleiddir wedi dangos camreolaeth ariannol ddifrifol, yn benderfyniad sy’n cael ei ystyried, yn y lle cyntaf, yn benderfyniad amodol. (Ar hyn o bryd, gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd a gyflwynir, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd am gyfnod penodedig). O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu'r darparwr arall dan sylw allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.

7.17 Yn ogystal, rydym yn ystyried y dylai fod yn ofynnol i CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad o bolisi'r Cyngor ar arfer ei bwerau ymyrryd arfaethedig, a'i gyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr a reoleiddir, yn ymwybodol o'r ymyraethau y gall CCAUC eu gorfodi os ydynt yn methu â chydymffurfio â gofynion y Cod, pryd a sut y bydd yr ymyraethau'n cael eu gorfodi, a chanlyniadau peidio â chydymffurfio.

7.18 Yn yr un modd â'r trefniadau ar gyfer rheolaethau ar ffïoedd, cydymffurfiaeth â chynllun ffïoedd a sicrhau ansawdd, rydym o'r farn y dylai'r trefniadau arfaethedig ar gyfer tynnu cymeradwyaeth yn ôl i gynllun ffïoedd gynnwys **mesurau pontio** sy'n sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi dechrau ar eu cyrsiau addysg uwch gyda darparwr a reoleiddir yn gallu parhau i dderbyn cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu hastudiaethau.

7.19 Ymhellach i'r cynigion a nodwyd yn adran 4 ar gyfer darpariaeth freiniol, rydym yn cynnig bod gofyn i'r sefydliad neu’r darparwr sy’n breinio’r cwrs addysg uwch (y breiniwr) feddu ar gynllun ffïoedd sydd wedi’i gymeradwyo er mwyn i gyrsiau breiniol fod yn gymwys o ran rheolaethau ar ffïoedd a chael eu dynodi’n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig y bydd angen i'r breiniwr, fel darparwr a reoleiddir, (yn hytrach na’r sefydliad sydd wedi’i freinio), gydymffurfio â Chod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol CCAUC. Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a fyddai’r dull hwn yn gweithio'n ymarferol ai peidio.

## Cwestiynau ymgynghori: sicrwydd ariannol a llywodraethu

1. **A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar y Cod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol arfaethedig?**

2. **(a) A ydych yn cytuno y dylid darparu ar gyfer craffu pellach yn dilyn ymgynghoriad CCAUC ar y Cod drafft?**

   **(b) Os felly, pa un o'r opsiynau ym mharagraff 7.12 ydych chi'n ei ffafrio a pham?**

3. **(a) A ydych yn cytuno â chwmpas y Cod arfaethedig ym mharagraff 7.11?**

   **(b) A ddylai fod yr un mor berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun sydd wedi'i gymeradwyo?**

   **(c) A ddylid ei amlinellu yn y Bil arfaethedig a gadael i CCAUC ddatblygu manylion gweithredol y Cod?**

   **(d) Ym mha amgylchiadau, os o gwbl, y dylai fod gofyn i ddarparwyr a reoleiddir gael caniatâd CCAUC i ymgymryd â thrafodion ariannol penodol?**

4. **A ddylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ddatganiad o'i bolisi ymyrryd, a'i gyhoeddi?**

5. **Os bydd darparwr a reoleiddir yn dangos camreolaeth ariannol ddifrifol, a ydych yn cytuno y dylai CCAUC allu tynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffïoedd y darparwr hwnnw, p'un a yw wedi rhoi cyfarwyddyd i'r darparwr i gydymffurfio â gofynion y Cod ai peidio?**

6. **A yw'r mesurau diogelu ym mharagraff 7.16 yn briodol ac yn ddigonol?**